

ECO'r Wyddfa

f Dilynwch ni ar facebook
www.ecorwyddfa.co.uk

Rhif: 468

Medi 2018

Pris: 70c



Ddydd Mercher 11 Gorffennaf, cafodd ugain o deuluoedd alwad ffôn gan ferch o'r swyddfa yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun, yn rhoi gwybod iddynt fod y cartref ar fin ymddatod neu ddiddymu ei hun, a bod gan y teuluoedd lai nag wythnos i ddod o hyd i gartref nyrsio arall i'w hanwyliaid. Ar ddydd Gwener, 13 Gorffennaf, derbyniodd y teuluoedd lythyr gan gyfarwyddwr 'Penisarwaun Care Home Ltd' - Mr Mubarik Barkat Paul - yn dweud -

"We regret to inform you that Penisarwaun Care Home Ltd is to be liquidated and closed. The liquidator has given notice to the authorities to vacate the home in seven days from yesterday. Please contact your social worker for further information".

Agorwyd y cartref yn swyddogol gan y Cyngorydd Pat Larsen ar 28 Mawrth 1992, a'r rheolwr gwreiddiol oedd gŵr o'r enw Mr Jarden. Daeth Mr Paul a'i wraig - Patrizia Roselyne Paul - i fod yn gyfarwyddwyr ar y cartref yn Chwefror 2003.

Ers rhai blynnyddoedd, mae'r cartref wedi bod yn destun sawl adroddiad beirniadol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Gellir darllen yr adroddiadau hyn ar wefan AGC - arolygiaethgofal.com. Yn adroddiad Hydref 2015, beirniedir y ffaith nad oedd rheolwr/rheolwraig cofrestredig wedi gweithio yn y cartref ers 2010, a bod hyn yn "fater difrifol". Mynegir pryder am y lefelau staffio, ac am y diffyg cyfathrebu rhwng yr 'unigolyn cyfrifol' (Mr Paul) a'i staff. Cwynai'r staff nad oedd yr unigolyn cyfrifol yn gwrandao arnynt ac

nad oedd "dim pwynt" iddynt fynegi eu pryderon iddo. Serch hynny, dywed yr adroddiad fod y staff yn dangos "urddas a pharch" tuag at y preswylwyr.

Mae'r pryderon a fynegir yn adroddiadau Awst 2016; Awst 2017 a Mawrth 2018 yn dwysau, ond mae'r adroddiad a gyhoeddwyd ar 27 Mehefin 2018 yn un damniol. Yn eironig, rhyddhawyd yr adroddiad hwn yn ystod y cyfnod y cyhoeddwyd fod y cartref yn cau. Hefyd, cyn cyhoeddi'r adroddiad, penderfynodd Mr Paul beidio â bod yn 'unigolyn cyfrifol' i'r cartref, ac ymddiswyddodd Mrs Paul fel un o'r cyfarwyddwyr ar 5 Mehefin. Yr hyn sy'n drist yw fod y staff wedi cael eu rhoi ar ddeall oddeutu fis cyn y cyhoeddiad am gau - nad oedd bwriad i gau'r cartref. Rhoddwyd nodyn ar ddrws ffrynt y cartref yn cyfleu yr un neges. Holodd dau aelod o staff y cyfarwyddwyr a fyddai'n iawn iddynt drefnu gwyliau dramor os oedd eu swyddi yn y fantol. Dywedwyd wrthynt nad oedd angen iddynt boeni am eu swyddi.

Mae adroddiad AGC (dyddiedig 27 Mehefin 2018) yn cadarnhau fod Penisarwaun Care Home Ltd wedi cael ei gategoreiddio fel "gwasanaeth sy'n achosi pryder" ers 15 Mai 2018, ac na fyddai preswylwyr newydd yn cael eu derbyn i'r cartref nes y byddai AGC yn fodlon na fyddai "risgiau annerbyniol i iechyd a lles pobl" yn y cartref. Serch hynny, mae'r adroddiad yn cydnabod fod y preswylwyr yn cael eu "cefnogi gan staff caredig a gofalgar".

Parhad ar dudalen 8

ISSN 2516-7235



9 772516 723001 >

ECO'r Wyddfa

CYMRAG

RHIF 468 Medi 2018

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC

Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Sw'n yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU

Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n
Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2018

Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Hydref	Sul 23 Medi	Gwener 5 Hydref	Penisarwaun
Tachwedd	Sul 21 Hydref	Gwener 2 Tachwedd	Llanberis
Rhagfyr	Sul 18 Tachwedd	Gwener 30 Tachwedd	Caethro

LLYTHYRAU

Llyfrau ar Bresgripsiwn

Annwyl bawb,

Mae Darllen yn Well: Llyfrau ar Bresgripsiwn yn cynnig deunydd darllen defnyddiol, wedi ei achredu, i gefnogi iechyd a lles. Fe'i cyflwynir gan The Reading Agency mewn partneriaeth â Chymdeithas y Prif Lyfrgellwyr, a chyda chyllid gan Gyngor y Celfyddydau Lloegr a Wellcome. Cefnogir y cynllun gan bartneriaid amlwg ym maes iechyd a'i gyflwyno mewn llyfrgelloedd cyhoeddus.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid i The Reading Agency i gyflwyno Darllen yn Well i lyfrgelloedd yng Nghymru mewn partneriaeth â Chymdeithas y Prif Lyfrgellwyr (Cymru) dros y ddwy flynedd nesaf, gan dechrau â Darllen yn Well ar gyfer dementia yn 2018, a ddilynir gan Darllen yn Well ar gyfer iechyd meddwl oedolion yn 2019.

Mae'r cynllun Darllen yn Well ar gyfer Dementia yn weithredol ar hyn o bryd yn llyfrgelloedd Gwynedd. Mae gennym daflen a rhestr ddarllen sydd yn cynnwys gwybodaeth a chynghor ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr, yn ogystal â rhestr o lyfrau ffuglen, cofiannau a llyfrau ffotograffig a ddefnyddir mewn therapi hel atgofion. Mae The Reading Agency yn gweithio gyda Chyngor Llyfrau Cymru i gyfieithu'r llyfrau i'r Gymraeg. Bydd casgliadau o'r llyfrau a deunydd cefnogol ar gael yn llyfrgelloedd Gwynedd yn Gymraeg a Saesneg. Cliciwch y linc isod i fedru gweld ac archebu y llyfrau trwy ein catalog Llyfrgell: https://wales.ent.sirsidynix.net.uk/client/cy_GB/gwynedd_cy/search/results?qu=%22CON2%22&te=

Gallwn yrru cyflenwad o'r ffurflen wybodaeth â'r rhestr ddarllen atoch, plis cysylltwch â llyfrgell@gwynedd.llyw.cymru i drefnu.

Dathlu'r 75 ...

Mae mudiad Ffermwyr Ifanc Eryri yn falch o fedru wynebu'r dyfodol yn llawn egni a brwdfrydedd er iddynt gael blwyddyn anodd wrth orfod dygymod â'r newyddion na fyddai'r mudiad yn derbyn cymorth ariannol gan Gyngor Gwynedd o hyn ymlaen. "Ymlaen bo'r nôd", meddai Eleri Evans, Trefnydd Ffermwyr Ifanc Eryri, "a 'rydym yn ddiolchgar iawn ac yn gwerthfawrogi pob cefnogaeth a chymorth a gawsom yn lleol yn ystod y flwyddyn. Heb gefnogaeth o'r fath anodd iawn fyddai gweithredu a pharhau fel mudiad".

Profodd y mudiad flwyddyn lwyddiannus arall yn llawn gweithgareddau a chystadlaethau ar gyfer yr un clwb ar ddeg sy'n bodoli yn Eryri a chynhaliwyd y Rali flynyddol ar fferm Garth, Llanrug, yn binacl teilwng i'r flwyddyn.

Ar nos Wener, 28ain o Fedi, cynhelir 'Parti Dathlu 75' a hynny yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon gydag adloniant gan y Tri Gog a Hwntw. Dyddiad cau archebu tocyn yw'r 14eg o Fedi. Estynnir croeso cynnes i bawb gyd-ddathlu 75 mlynedd ers sefydlu mudiad Ffermwyr Ifanc Eryri. Eleri Evans

Ffermwyr Ifanc Eryri, Adeilad NFU, Caernarfon

01286 677513 Eryri@yfc-wales.org.uk Rhif Elusen: 1167065

Gair gan y Golygydd

Daeth digon o gyfraniadau i law cyn diwedd Gorffennaf fel y gellid bod wedi cyhoeddi rhifyn Awst! Yn anffodus, mae llawer o'r deunydd hwnnw wedi dyddio ac ni chafodd ei gynnwys yn y rhifyn hwn. Daeth toreth o straeon am wahanol ddigwyddiadau i law erbyn diwedd Awst hefyd, a degau (yn llythrennol) o luniau. Ond, ac y mae'n OND go fawr, mae nifer ohonoch yn parhau i anfon lluniau sy'n ymddangos yn glir ar sgrin y cyfrifiadur, ond yn ddim mwy na maint stamp post – a rhai llai na hynny! Dychmygwch roi llun grwp o blant neu bobl ar faint stamp. Fyddai dim posib adabod neb. Ac ni allwn eu chwyddo heb i bawb ymddangos fel cymeriadau Lego. Mae rhybudd ynglyn ag anfon y math hwn o lun wedi ei gynnwys yn rhifynnau blaenorol yr "Eco". Cysylltwch efo ffotograffydd yr "Eco" os nad ydych yn sicr o sut i anfon llun (gweler tudalen 2).

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£20.00 John Maldwyn a Mair Jones, Tan y Buarth, Bethel; Teulu Mrs Eunice Roberts, Maes Padarn, Llanberis, Di-enw, Llanberis

£10.00 er cof am Margaret Ellen Jones, Hafan, 7 Porth Gogledd, gan y teulu; Er cof am Cissie Rowlands, Gorlan, gan ei hefaill, Mrs Jenny Williams, 1 Rhydfadog, Deiniolen. Glenys a Jenkin Griffiths, gynt o Fethel.

£3.00 Nia Oliver, Gors, Brynrefail.

£2.00 Di-enw, Llanrug



Cymdeithas y Deillion

Gogledd Cymru

325 Stryd Fawr, Bangor,
Gwynedd LL57 1YB

(01248) 353604 admin.
nwsb@btconnect.com

Mae Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru yn recordio a chynhyrchu ystod eang o Lyfrau Llafar sydd ar gael yn eich llyfrgelloedd lleol.

Y llyfrau diweddaraf ar gyfer plant a phobol ifanc a recordiwyd yw'r canlynol:

1.MISS PRYDDERCH A'R CARPED HUD (Mererid Hopwood)

2.SAITH SELOG – ANTUR AR Y FFORDD ADREF : addasiad Manon Steffan Ros a DAL ATI GWEN (Siân Lewis)
3.MAES Y MES – Dwy stori gan Nia Gruffydd : RHOSWEN A'R EIRA a MWYAREN A'R LLEIDR

4.NA, NEL! Wps! ac UN TRO (Meleri Wyn James)

Gellir eu benthyca yn rhad ac am ddim trwy gysylltu a'ch llyfrgell leol.

Parhad LLYTHYRAU

Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï

Annwyl Olygydd

A fyddech garediced a rhoi gwybod fod Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï yn dechrau ei dymor ar Fedi'r 18fed yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon a hynny am hanner awr wedi saith yr hwyr. Harri Parri fydd yn trafod ei lyfr diweddaraf, "Cannwyll yn Olau" sef stori John Puleston Jones, y Pregethwr dall. Oherwydd y cysylltiadau â'r ardal mae'n bosib y byddai gan ddarllenwyr yr Eco ddiddordeb. Codir £2 wrth y drws, (neu £8 am y tymor) ac mae paned a sgwrs yn dilyn .

Diolch rhag blaen
Helen (Gwyn) Ysgrifennydd

Lansio Apêl Newydd i Godi £10k y Flwyddyn a Gwireddu Gweledigaeth Merêd

Dyn y ‘pethe’, dyn y gwerin, ac yn anad dim, dyn y Gymraeg oedd Dr Meredydd Evans – neu Merêd i ni ei gyd-Gymry. Bu’n ymgyrchu’n ddyfal gydol ei oes i sicrhau ffyniant a pharhad y Gymraeg, a nawr, wrth iddynt baratoi i nodi canmlwyddiant ei eni yn 2019, mae ei gyfeillion yn Ymddiriedolaeth William Salesbury wedi cyhoeddi apêl genedlaethol newydd sbon i wireddu ei weledigaeth.

Bwriad yr Ymddiriedolaeth, ers i Merêd ei sefydlu yn 2012, yw ariannu ysgoloriaethau i gefnogi pobl ifanc i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda’r nod o gefnogi gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sydd yn cydweithio gyda phrifysgolion Cymru i ehangu ystod y cyrsiau sydd ar gael i’w hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r criw nawr am weld gweledigaeth Merêd yn fyw eto, ac wedi datgan bod angen i’r Gronfa gasglu o leiaf £10,000 y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf i sicrhau ysgoloriaethau’r dyfodol.

Ers sefydlu’r gronfa, mae chwech o Gymry ifanc wedi derbyn cymorth ariannol gan y Gronfa a hynny ar ffurf ysgoloriaethau gwerth £5,000 yr un, dros dair blynedd. Eleni, Heledd Lois Ainsworth, disgybl yn Ysgol Bro Teifi, ac Elen Wyn Jones, disgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen, oedd yr enillwyr. Mae Heledd ar fin astudio’r Gyfraith a’r Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Bwriad Elen yw mynd i Brifysgol Bangor i astudio Cerddoriaeth ym mis Medi..

Wrth lansio’r apêl ar faes yr Eisteddfod yng Nghaerdydd, dyweddodd Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth, Dr Gwenllïan Lansdown Davies: “Nid oedd llaesu dwylo yn perthyn i Merêd. Dyma ein cyfle ni nawr i gerdded yn ôl ei droed ac ymuno yn yr ymdrech i gefnogi addysg gyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg – o’r cylch meithrin i’r brifysgol.”

Os hoffech ymuno yn yr ymdrech, gallwch gyfrannu heddiw mewn sawl ffordd:

- rhoi swm o arian trwy siec, cerdyn, daliad ar-lein neu orchymyn banc
- gorchymyn ad-daliad o’ch treth lle bo’n bosib (Rhodd Gymorth)
- trefnu gweithgareddau i godi arian
- gadael rhodd yn eich ewyllys i’r Gronfa, fel y gwnaeth Merêd.

Am fanylion pellach:

Ebost:ysgrifennydd@cronfasalesbury.org

Gwefan:www.cronfasalesbury.org

Cyfeiriad:d/o y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Llwyfan, Caerfyrddin, SA31 3EP

Carys Mair Thomas
Ymgynghorydd Cyfathrebu

BRYNREFAIL Mrs Lowri Prys Roberts -Williams. Ffôn: 870580

Llongyfarchiadau mawr i Aneurin Jones o Gors Wen, ar ennill gradd Meistr mewn 'Aeronautical and Mechanical Engineering' o Brifysgol Glyndŵr, Wrecsam. Oddi wrth teulu Gors Wen, Lowri, Leia a Nain Llanrug, Elsie Owen a'r teulu i gyd.

Oedfaon Medi am 5 yr hwyr

2: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)

Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

9: Parch Euron Hughes, Llanuwchllyn

16: Parch R.O Jones, Gaerwen

23: Parch Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan

30: Mrs Nerys Griffith, Caernarfon

Baner Werdd i Barc Padarn



Llongyfarchiadau unwaith eto eleni i staff Parc Padarn am eu gwaith diflino a dyfal yn gofalu am y Parc, sy’n gymaint atyniad, nid yn unig i drigolion lleol gydol y flwyddyn, ond i’r holl ymwelwyr sy’n heidio yma yn ystod misoedd yr haf. Dyfarnwyd iddynt y Faner Werdd am safon y parc.

Yn ystod y mis aeth heibio....

• Do, fe fu’n haf hynod o braf a phoeth, ac ni chafwyd un tebyg iddo ers nifer helaeth o flynyddoedd. Ond bu’r sychder yn broblem, gyda dwr yn cael ei gario mewn tanceri o Lyn Cowlyd i Wyrfaï, a nifer o dai yn yr ardal oedd yn ddibynnal ar eu cyflenwad eu hunain yn teimlo’r effeithiau. Ond erbyn canol a diwedd Awst dychwelodd y glaw.....

• Cauwyd Cartref Nyrsio Penisarwaun yn ddisymwth gan adael y preswylwyr a’u teuluoedd gyda’r broblem o ddarganfod cartref newydd. Staff ymroddedig yn colli eu gwaith hefyd. Gweler yr hanes yn llawn ar dudalen 8.

• Fel roedd tymor yr ysgolion yn dirwyn i ben ganol Gorffennaf daeth sibrydion fod Ysgol Cwm y Glo i gau oherwydd niferoedd bychan o ddisgyblion. Ond fel y bydd y rhifyn hwn o’r “Eco” yn eich cyrraedd, mae’r ysgol yn parhau ar agor – ond am ba hyd tybed?

• O ganlyniad i ail-wampio ac adnewyddu adeilad y Mynydd Gwefru yn Llanberis, symudwyd ‘Cwch Llyn Peris’ i’w ddiogelu yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Ond a fydd yn dychwelyd yno?

• Eisteddfod Genedlaethol hynod olwyddiannus ym Mae Caerdydd, a miloedd wedi tyrru yno. Efallai fod llai o Gymraeg nag arfer i’w glywed ar y ‘Maes’, ond roedd yn brofiad rhyfeddol i’r cannoedd o bobl oedd yn ymweld a’r ardal heb sylweddoli beth yn union oedd eisteddfod. Ac yn sicr bu’n gyfrwng i ddod ag ymwybyddiaeth o amrediad eang ac aml-ochrog y diwylliant Cymraeg a Chymreig. Mae son eisoes am geisio cynnal Eisteddfod Genedlaethol agored ar yr un patrwm yng Nghaernarfon, gyda’r pafiliwn i mewn yn y castell. Rwan dyna beth fyddai goruchafiaeth y Cymry ar gadarnlêr estron gynt!

• Ac ar ‘faes’ yr Eisteddfod y croesawyd Geraint Thomas yn ôl i Gaerdydd yn dilyn ei lwyddiant yn y Tour de France, cyn iddo feicio o’r Bae i Gastell y ddinas a rhoi cyfle i dorf o tua wyth mil werthfawrogi ei gamp. Bachgen o Ddeiniolen yn gyfrifol am Dim Sky, ac un o ganeuon Hogia’r Wyddfa yn cael ei ‘mabwysiadu’ gan y cefnogwyr. Dyna’r mis y trodd ‘Titw Tomos Las’ yn Ditw Tomos Melyn!

• Timau Merched a Genethod Bethel yn cael eu ‘gwahardd’ rhag defnyddio Cae Coed Bolyn gan Glwb Pel-droed Bethel. Gweler adroddiad ar dudalen 31.

EIS TEDD FOD18

Enillwyr y Genedlaethol



Er i'r eisteddfod gael ei chynnal gryn bellter i fwrdd, roedd cystadleuwyr lu o'r fro wedi teithio i Gaerdydd, ac fel y gellid disgwyl, bu llwyddiant. Llongyfarchiadau i'r canlynol – ac ymddiheuriad i unrhyw un/rai os na chofnodwyd eu llwyddiant. Rhowch wybod, ac fe gewch eich sylw haeddiannol y mis nesaf. Bandiau Pres Dosbarth 1 : 3ydd Band Deiniolen.

Unawd Bechgyn 12 – 16 oed : 3ydd Osian Trefor Hughes, Deiniolen.

Dawnsio Disgo : 1af Hudoliaeth (Grwp o ferched o ardaloedd Llanrug, Bethel a Chaernarfon sydd wedi ail-ymgynnull ers tua blwyddyn, ac yn ymarfer yn wythnosol yn Neuadd Bethel). 2il Heintus (sef Angylion Kelly). Ac yn wahanol i'r hyn gyhoeddwyd o'r llwyfan, NID grwpiau dawnzio o Gaernarfon yw'r un o'r ddau grwp!

Deialog : 2il Leisa Gwenllian, Llanrug (gyda Lois Postle)

Deuawd Cerdd Dant : 3ydd Leisa Gwenllian, Llanrug (gyda Fflur Davies).

Llefaru 16 -19 oed : 3ydd Leisa Gwenllian, Llanrug

Pedwarawd Cerdd Dant : 2il, gyda'r chwiorydd Lois Eifion ac Annette Eifion, Penisarwaun.

Adran Cerdd : Cyfansoddi casgliad o ddarnau mewn unrhyw gyfrwng : Twm Herd, Penisarwaun.

Tlws Sbardun : Cyfansoddi Cân Werin ac acwstig ei naws : Gwilym Bowen Rhys, Bethel.

Ac i'r rhain â chysylltiadau agos â'r fro:

Ysgoloriaeth W. Towyn Roberts : Steffan Lloyd Owen (aelod o Trio), a'i deulu'n hannu o Ddeiniolen.

Unawd Bariton/Bas dan 25 oed a Thlws Coffa'r Fonesig Herbert Lewis am Gân Werin : Nain a Taid Cae Rhos, Llanrug yn falch iawn o lwyddiant Emyr Lloyd Jones, Bontnewydd, fydd yn mynd ymlaen i gystadlu am Ysgoloriaeth Bryn Terfel yn ddiweddarach eleni.

Bardd y Goron : Catrin Dafydd, Caerdydd, merch Dafydd Huws, Llanberis gynt ac wyres Mrs Megan Hughes, Llanrug.

Gwobr Goffa Daniel Owen : Mari Williams, Caerdydd, a fu'n athrawes yn Ysgol Brynrefail am gyfnod.

Englyn : Llwybr Arfordir Cymru : John Roberts, Caernarfon (Cyn Drefnydd Hysbysebion yr "Eco" ac aelod o Dim Talwrn y Beirdd, Llanrug)

Deiniolen, Manceinion a'r Eisteddfod Genedlaethol



Mae Annette Bryn Parri a Siân Wyn Gibson wedi cael eu magu gyda'i gilydd ac yn frindiau agos iawn ers eu plentyndod.

Mae ganddynt lawer iawn yn gyffredin – hiwmor a bod yn barod iawn eu cymwynas, ymhlith llawer o bethau eraill. Mae'r ddwy wedi rhannu llwyfan â'i gilydd mewn neuaddau led-led Cymru a Lloegr. Er ein bod yn cysylltu Annette gyda'r piano a chyfeilio, a'n bod yn cysylltu Siân gyda'r byd canu, mae ganddynt un peth arall yn gyffredin – Coleg Cerdd Brenhinol y Gogledd (RNCM) Manceinion, lle bu'r ddwy yn astudio.

Ar wahân i berfformio, mae'r ddwy wedi cydweithio trwy roi hyfforddiant lleisiol a chyfeilio i ddegau o blant a phobl ifanc dros y blynyddoedd. Mae rhai o'u cyn-ddisgyblion wedi mynd ymlaen i golegau cerdd mewn llefydd fel Caerdydd a Birmingham. Ond mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi mynd ymlaen i Manceinion.

Yn eu plith, mae Elgan Llŷr Thomas, Alaw Tecwyn, Gwenllian Elias, Richard Aron Davis, Michaela Parry, Rhodri Brooks, Caryl Angharad, Ieuan Jones, Steffan Lloyd Owen, Erin Rossington, Ryan Davies, Fu Lian Doble ac Emyr Lloyd Jones.

Yn ystod mis Awst eleni, daeth dau o'r talentau hyn i'r brig yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Pwy oeddent? Steffan Lloyd Owen, o Bentre Berw, a enillodd Ysgoloriaeth W. Towyn Roberts, a Ryan Vaughan Davies o Hen Golwyn, a enillodd Wobr Goffa Osborne Roberts.

A beth am TRIO? Un o'r grwpiau mwyaf addawol yma yng Nghymru - Emyr Wyn Gibson (sef brawd Siân), Bedwyr Gwyn Parri (mab Annette) a Steffan (trydydd cefnder i Bedwyr). Bydd eu perfformiad rhyngwladol cyntaf yn Washington DC yn yr Unol Daleithiau, ar 30 Awst 2018, yng nghyngerdd agoriadol Gŵyl Flynyddol Cymdeithas Gymraeg Gogledd America. Siân wedi eu hyfforddi yn lleisiol ac Annette yn trefnu eu caneuon a chyfeilio iddynt, ac wedi cynhyrchu dau gryno ddisg ohonynt i Recordiau SAIN.

Mae'r cantorion a'r pianyddion ifanc yn temlo'n ddyledus iawn i'r ddwy yma o Ddeiniolen, am fod yn gymaint o ran o'u bywyd cerddorol. Y ddwy yn hyfforddi a hybu ein cerddorion ifanc ac yn sicrhau llwyddiant yn eu arholiadau cerdd, yn rhoi cyfle iddynt gystadlu a pherfformio ar lwyfannau yma yng Nghymru a thu hwnt i'r ffin. Y ddwy wedi eu anrhydeddu gan Orsedd y Beirdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a'r 'enwau yng ngorsedd' - Siân Eiriolen ac Ann o'r Bryn. Deuawd berffaith, cyfeillgarwch arbennig a cherddorion o'r radd flaenaf.

Eglwys Sant Mihangel
Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig a llwyddiannus – “Addoli Cafe” – yn Y Sefydliad Coffa ddydd Sul Sed o Awst ar y thema ‘Teisennau Jaffa’. Ar y Sul cyntaf ym Medi, y thema oedd ‘Jelly babies’. Bydd Cafe Diolchgarwch yn cael ei gynnal yn Y Sefydliad ar ddydd Sul, 7fed o Hydref pan dderbynnir cyfraniadau o duniau bwyd ac eitemau eraill ar gyfer y rhai llai ffortunos. Croeso cynnes i bawb.

Mynwent yr Eglwys Y mae’r fynwent wedi cael toriad arall, ac yn edrych yn daclus iawn. Gyda’r diolch cywiraf am y cyfraniadau blaenorol a fu’n gymaint o gymorth i wneud y gwaith. Gan mai dim ond £5 sydd ar ôl yn y gronfa, apeliwn eto am gyfraniadau i wneud y toriad diwethaf i gadw’r fynwent yn daclus dros y gaeaf. Gellir anfon at y Trysorydd, Mrs Beryl Roberts, 20 Glanffynnon (01286.677163). Gyda diolch ymlaen llaw am eich haelioni.

Merched y Wawr Nos Fawrth, Medi 11eg, edrychir ymlaen at groesawu pawb y ôl wedi seibiant yr haf. Cychwynnir y tymor gyda’r amryddawn Annette Bryn Parri yn olrhain ei hanes o’i phlentyndod hyd heddiw. Felly mae chwip o noson o’n blaenau. Cofier bod croeso cynnes i aelodau newydd a dysgwyr - mae rhaglen amrywiol wedi’i threfnu felly dewch i fwynhau a chymdeithasu i’r Neuadd Goffa am 7.30 ar Fedi 11eg.

Pen-blwyddi Arbennig

Llongyfarchiadau i’r canlynol ar ddathlu pen-blwyddi arbennig yn ystod yr haf:

Evelyn Williams, Glan Gors, yn 60 mlwydd oed; Jennifer Thomas, Afon Rhos yn 70; Iris Jones, Hafan Elan yn 70; Llywela Hall, Dolanog, Glanffynnon yn 80 oed.

Pan ddaw’r Eco allan, bydd Mair Huws, Hafan, hithau yn dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed. Llongyfarchiadau i chi i gyd.

Babi **Newydd**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ceri ac Ifan ar enedigaeth Anni Meredydd, chwaer fach i Eban, wyres i Robin ac Evelyn a gorwyres i Menna a John, Fferm Minffordd.

Plaid Cymru

Enillwyr y Clwb Cant
Gorffennaf 1- Meirwen Lloyd
2- Deiniol Evans Awst 1-
Berwyn Jones 2- Carrie Owen
Gwaeledd/Gwellhad

Cofiw’n arw atynt i gyd, gan ddymuno gwellhad buan yn dilyn gwaeledd ac arhosiad mewn ysbytai:

Goronwy Roberts, Nant y Glyn, wedi cael ei daro yn wael ar ei wyliau yn Sbaen, da deall eich bod wedi gwella erbyn hyn. Bet Jones, Ffordd Glanffynnon, wedi cael llawdriniaeth, hithau yn gwella erbyn hyn.

Megan Roberts, Gregynnog, wedi cael sawl llawdriniaeth, gobeithio y cewch ddiwedd ar rhain yn awr, Megan.

Da yw deall bod Hefin Jones, Pantmwyn, wedi dod adref o’r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth. Brysiwch wella. Yn anffodus, mae Gwilym Rees Parry yn ôl yn yr ysbyty, brysiwch chitha wella, Gwilym.

Taid a Nain Newydd

Llongyfarchiadau mawr i Selwyn a Meirwen Lloyd, Afallon, Bryn Melyn, ar ddod yn daid a nain eto. Cafodd Carwyn a Sian ferch fach, Anni Gwynedd, draw yng Nghaerdydd. Pob dymuniad da i chi i gyd.

Llwyddiant Llongyfarchiadau mawr i Aneuryn Jones o Gors Wen, Brynrefail, ar ennill ei radd Meistr mewn ‘Aeronautical and Mechanical Engineering’ o Brifysgol Glyndŵr, Wrecsam. Oddi wrth deulu Gors Wen, Lowri, Leia a Nain Llanrug, Elsie Owen a’r teulu i gyd.

Babi **Newydd**

Llongyfarchiadau mawr i Meilyr Owen (gynt o Hafod y Rhos) a Ceridwen o Rosgadfan gynt, ar enedigaeth eu hail fab, Nedw, ar 12fed o Orffennaf. Brwd bach i Lleu ac Wyr i Elsie Owen. Pob bendith gan y ddau deulu.

Gwaeledd Anfonwn ein dymuniadau gorau at Menna Williams, Fferm Minffordd, sydd wedi treulio amser hir yn Ysbyty Aintree, Lerpwl, yn derbyn triniaethau ac archwiliadau. Brysia adref, Menna, mae colled fawr yma heb dy weld a’th waith gwirfoddol.

Profedigaethau

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr Stanley Roberts, Glanffynnon, a’r teulu yn eu profedigaeth unwaith eto yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Morfudd o Langefni. Roedd yn chwaer annwyl i’r diweddar Mrs Ceri Jones, Ffordd yr Orsaf, a modryb annwyl iawn.

Mae’r pentref wedi ei ysgwyd gan newyddion o farwolaethau pobl ifanc yma yn ddiweddar iawn.

Unwaith eto rhaid cydymdeimlo

yn ddiffuant iawn gyda. Dafydd, Linda a Lois a’r teulu, Afon Rhos, yn eu profedigaeth fawr o golli eu merch Iona, yn 46 mlwydd oed. Roedd Iona wedi bod yn ymladd mor galed yn erbyn ei gwaeledd a bu ei rhieni a’i chwaer yn trafaelio yn ôl a ymlaen i’r de i fod yn gymorth iddi hi a’i theulu.

Rydym yn meddwl amdanoch yn eich colled enfawr a chofiwn at ei gŵr, ei phlant a’r teulu oll a’i ffrindiau yma yn yr ardal.

Yn dawel ar Awst 11eg bu farw Nerys yn 64 mlwydd oed, gwraig annwyl John, Byngalo Glanffynnon, ar ôl bod yn wael ers amser hir. Mae yn golled enfawr iddynt fel teulu a roddodd gefnogaeth amhrisiadwy iddi yn ystod ei gwaeledd. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at John, Aaron, Ioan, Colin, Lynn a Cathy, ei wyrion a’r wyresau bach, ei meibion a merched yng nghyfraith, ei theulu a’i ffrindiau oll.

Yn ddychrynlyd o sydyn bu farw Gareth Parry, Pant Gwyn, Lôn Minffordd yn 40 mlwydd oed. Gŵr anwylaf Zoe, tad arbennig Jac a Beth, mab hoffus Tony a Maria a brawd annwyl Gwenan. Roedd yn fab yng nghyfraith i Denis a Lorna Pritchard, fferm Afon Rhos. Hefyd yn ŵr hoffus i Mrs Yvonne Jones. Rhoddwyd terynged amhrisiadwy iddo gan Brifathro Ysgol Friars lle roedd Gareth yn Ddirprwy ac, yn ôl tystiolaeth disgyblion yr ysgol, bydd colled anferth iddynt a’r ysgol.

Yn dawel ar ôl gwaeledd hir bu farw un o anwyliaid y pentre, sef Wavel Roberts, London House gynt, a’r siop gig.

Roedd Wavel a Liz wedi ymgartrefu yn Bontnewydd wedi ymddeol o fod yn gigydd ers blynnyddoedd lawer yma yn Llanrug. Dalia i ddod yn aml i’r siop i gael sgwrs hefo Bryn a sawl un o’r pentrefwyr yn eu tro. Roedd yn ŵr hoffus dros ben a phersonoliaeth annwyl a chyfeillgar bob amser. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant atoch fel teulu, Liz, Wendy,

Dawn, Linda a’u gŵr, ei wyrion a wyresau a gorwyrion a’r teulu oll. Colled fawr i chi ac i’w gyfeillion i gyd.

Yn yr un modd cydymdeimlwn yn arw â Mared a’r plant, Stad Minffordd, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam yn Llanberis, Ann Wilson Roberts.

Cofiw’n arw at Gwynndaf Lewis, Dolafon, Cwm y glo (Llanrug) yn ei golled yn dilyn marwolaeth ei wraig, Brenda. Mam annwyl i Elaine, Wayne ac Andrea a nain hoffus i’r wyrion a’r wyresau.

Diolchiadau

Dymuna Dafydd Pritchard a Linda a Lois ddiolch o galon fel teulu am y rhoddion, cardiau a’r galwadau ffôn yn dilyn colli eu hannwyl ferch Iona yn ddiweddar. Bydd yr arian dderbyniwyd er cof amdani yn cael ei rannu rhwng Hosbis Tŷ Olwen, Abertawe, a’r Brain Tumor Charity. Diolch yn arbennig i Meinir Griffith, Penisarwaun am ei gwasanaeth trylwyr. Diolch i bawb.

Cofiw’n gynnes at deulu Dylan Ellis, Pengwern, Stad Nant y Glyn, yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl.

Hefyd at Ronnie a Doris Evans, Gwynfryn, Ffordd Glanffynnon, wedi colli brawd yng nghyfraith yn Dinas, Llanwnda.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â chi oll.

Hafan Elan Bydd cinio Hafan Elan yn ailgychwyn ar ddydd Mawrth, Meedi 11eg. Croeso i unrhyw un sydd â diddordeb ddod, a hefyd byddwn yn ddiolchgar iawn am wirfoddolwyr i weini y bwyd. Mae rhif bychan ohonom yn helpu allan ond mae angen mwy o ‘ddwylo’ i gael gwneud Rota. Os oes gennych awydd helpu, rŵan ac yn y man, cysylltwch ag Eryl Roberts 675384. Diolch.

Canlyniadau Arholiadau
Erbyn hyn bydd disgyblion Ysgol Brynrefail a’r Colegau wedi derbyn canlyniadau eu arholiadau ar bob lefel.

Llongyfarchwn chwi i gyd a dymunwn y gorau ichi yn eich dewis o golegau a gwaith.

Y beiciwr o Gymro

Y gwas i’r tîm yn gyson yn y ras

hwn roes gefn i’r mawrion

ond y bri eleni’n hon...

Geraint sy pia’r goron!

Norman Closs

Parhad LLANRUG

Yr Ysgol Gynradd



Ar ddiwedd yr haf cafwyd cyfarfod arbennig iawn yn Ysgol Gynradd Llanrug. Roedd Mrs Eirian Howells yn ymddeol ar ôl dros 30 mlynedd fel athrawes ac yna fel Dirprwy.

Am ei gwasanaeth clodwiw i'r ysgol cyflwynwyd teyrngedau arbennig iawn iddi gan gyn -benaethiaid, Cadeirydd y Llywodraethwyr a Mrs Puw, y pennaeth presennol. Canwyd cân a gyfansoddwyd gan Mrs Alaw Tecwyn i'w chyfarch a diolch iddi gan y plant.

Lluniwyd yr englyn hwn iddi gan y Prifardd Ieuan Wyn, fu'n cyddysgu â hi am flynyddoedd,

Eirian Howells (ar achlysur ei hymddeoliad)

I Eirian rhown gân gynnes o ddiolch,

I ddiwyd athrawes

A fynnai roi o'r fynwes

Yn llwyr dros y plant a'u lles.

2018 Ieuan Wyn

Mae Mr Math Llwyd hefyd yn gadael yr ysgol ac yn bwriadu teithio yn Awstralia am gyfnod. Cyflwynwyd cangarw plastig iddo gyda dymuniadau gorau gan y plant a'r staff.

Capel y Rhos Oedfaon Medi

2: Parch Marcus W. Robinson, Y Gweinidog. Oedfa'r Cymun

19: Dr Huw Tegid Roberts

16: Y Gweinidog

23: Parch Pryderi Llwyd Jones

30: Mr Aled Job

Codi arian i Elusen Archie.



Haf Thomas yn cyflwyno siec am £1000 i Archie, 10 Rhos Rhug.

Cynhaliwyd te bach arbennig at yr achos yn Hafan Elan ddiwedd Mehefin. Mawr yw diolch Haf i bawb gefnogodd yr achos teilwng hwn ac am roddion ariannol gan wahanol bobl a mudiadau. Yn arbennig felly gan barti Bythol Wyrdd Llanberis, Merched y Wawr Llanrug a rhodd anrhydeddus iawn gan Mr Ronnie Willimas, Leicester (yn enedigol o Penisa'r-waun ac wedi byw yn Deiniolen.) Mae'n derbyn yr Eco'n fisol a dyna sut y gwyddai am Elusen Archie.

Unwaith eto, da iawn Haf am drefnu'r gweithgareddau.

WAUNFAWR Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Mehefin oedd: £30: Mrs N. Huws Roberts, Madryn, 10 Erw Wen, Caeathro; £20: Edgar Owen, Glyn Awel; £10: Mrs R.A. Hughes, 10 Tref Eilian.

Enillwyr Gorffennaf oedd: £30: Pearl Williams, Parc; £20: Gareth Jones, Glyn Ceris; £10: Raymond Edwards, Felin y Wig.

Eisteddfod Genedlaethol 2018 Bu tri o ffrindiau o'r pentref yn brysur dros gyfnod yr Eisteddfod Genedlaethol ym mae Caerdydd eleni, ac roedd canmoliaeth fawr i'w cyfraniad.

Bu Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn amser prysur i Rhodri Siôn, Llys y Waun. Drwy gydol yr wythnos, bu'n perfformio'r sioe 'Gair o Gariad' ynghyd â'r gantores ac actores Lleuwen Steffan yng Nghanolfan Chapter, Treganna, ardal o'r ddinas ble'r oedd yn byw am rai blynyddoedd cyn symud yn ôl i'r ardal. Cafwyd ymateb arbennig i'r sioe, oedd yn gyfuniad o ddrama a cheisiadau personol gan y gynulleidfa i nodi adegau pwysig o'u bywydau, megis syrthio mewn cariad, magu plant a galaru. Yng ngeiriau un aelod o'r gynulleidfa ar Twitter: 'Un o'r profiada mwy hyfryd gesh i rioed mewn theatr. Alla i ond ei ddisgrifio fatha 'group therapy' cerddorol wedi'i arwain gan ddau o'n actorion/cantorion gora ni. Gwych.' Gwelwyd Rhodri (gynt o Beganifs/Big Leaves) hefyd yn camu yn ôl i'w sgidia canu ar Lwyfan Y Maes ar y nos Sadwrn olaf, i ganu gyda Candelas, gan ei fod wedi rhoi ei lais ar ddwy gân ar albwm newydd y grŵp roc poblogaidd.

Comisiynwyd Osian Gwynedd i gyfansoddi cerddoriaeth i ddrama afaelgar gan Aled Jones Williams o'r enw Anweledig a lwyfannwyd yn Tŷ Portland

Gellir gweld perfformiad o'r ddrama yn Pontio, Chwefror 19 i 22.

Gofynnodd yr Eisteddfod i Meilir Gwynedd addasu rhannau o Teilwng yw'r Owen ar gyfer Côr yr Eisteddfod a Cherddorfa Welsh Pops gyda John Quirk. Perfformiwyd y gwaith yn Theatr Donald Gordon yng Nghanolfan y Mileniwm i gynulleidfa o 1,500.

Eto gellir gweld y gwaith ar S4C cyn y Nadolig.

Bu Meilir hefyd yn diddori cynulleidfa ar wahanol lwyfannau gyda'i gerddorfa Ukelele. Mae hwn yn mynd o nerth i nerth gyda Meilir yn arwain yr ymarferiadau ddwy noson yr wythnos erbyn hyn. Gweithgaredd yw hon a drefnir gan Menter Caerdydd i hybu'r iaith Gymraeg yn ein prifddinas. Yn ogystal bu yn cynnal set o ganeuon allan o'i albwm gyntaf 'Glas' ar brif lwyfan y maes gyda'r band; yn adeilad y Pierhead ac ar lwyfannau eraill ar hyd y maes gyda'i set acwstig.

Erbyn hyn mae Meilir yn gitarydd ym mand Jarman a bu'n perfformio yn y Pafiliwn gyda hwn ac mewn mannau eraill.

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8yb-4yp
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Parhad WAUNFAWR



Llwyddiant yn Ras yr Wyddfa
Llongyfarchiadau mawr i Bronwen Jenkinson, Fron Goediog, ar ei llwyddiant i fod y ferch gyntaf i gyrraedd yn ôl i bentref Llanberis wedi iddi redeg i gopa'r Wyddfa ac yn ôl mewn ychydig funudau yn llai nac awr a hanner o amser. Hi yw'r Gymraes gyntaf i wneud hyn ers 29 o flynyddoedd.

Bu dwy arall o'r pentref, Rhian Jones, Gorwel y Môr, a Bethan Green, Bryn Arfon, yn cystadlu yn y ras hefyd. Llongyfarchiadau i'r ddwy.

Llongyfarchiadau i bobl ifanc y pentref ar eu llwyddiannau yn yr arholiadau y buont yn eu sefyll yn yr ysgolion a'r colegau yn ystod y gwres mawr ar ddechrau'r haf. Dymunwn y gorau i bob un ohonoch wrth ichi gamu ymlaen i'r gris nesaf yn eich astudiaethau ac yn y swyddi yr ydych wedi eu dewis.

Llongyfarchiadau i Huw Myfyr, Trefeddyg, ar gymhwyso fel Syrffewr Siartredig yn ddiweddar. mae Huw yn gweithio i gwmni Carter Jonas yn eu swyddfa y Mangor.

Erbyn hyn mae'r ysgolion wedi cychwyn ar flwyddyn newydd. Gobeithio'n fawr fod y rhai bach a'r rhai hynaf wedi setlo yn eu dosbarth newydd yn yr Ysgol Gynradd a disgyblion Blwyddyn 7 wedi dod i arfer â rheolau yr Ysgol Uwchradd.

Dymuniadau gorau hefyd i bob un sydd yn cychwyn gyrfa mewn coleg a swydd yn ystod y mis.

Ymdeol Dyma un fydd ddim yn mynd i'r ysgol ddechrau Medi. Dymunwn ymddeoliad hapus i Pat Parry, Cae March, wedi iddi fod yn athrawes yn adran y Babanod Ysgol Llanllyfni am 25 o flynyddoedd.

Llongyfarchiadau i Morgan Anderson, Fron Deg, ar ennill y Fedal Efydd am wneud ei orau mewn cystadleuaeth 'Karati' a gynhaliwyd yn Warrington yn ystod mis Gorffennaf. Da iawn chdi, Morgan. Dal ati i wneud dy orau.

Llwyddiant y y Sioeau Amaethyddol Yn ystod cyfnod y Sioeau Amaethyddol yng Nghymru bu Huw

Gwastadfaes yn brysur yn arddangos ceffylau Stabl Treflan Isaf. Daeth sawl gwobr a phencampwriaeth i'w ran. Llongyfarchiadau mawr iti am dy ofal o'r ceffylau.

Dathlu Pen-blwyddi
Dymuniadau gorau i Amelia Korus, Tŷ Uchaf, a Ryan Burns, Ty'n Rhodd, ar ddathlu eu pen-blwydd yn 18 oed. Gobeithio ichi gael diwrnod da o ddathlu. Dathlu cyrraedd eu 21oed y bu Shannon Owen, Stad Dôl Erddi a Kai Alcock yn ystod mis Awst. Llongyfarchiadau i chi eich pedwar a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Bu Mrs Doris Roberts, Teras Glyn Afon, a Mrs Annie Thomas, Stad Tŷ Hen, yn dathlu eu pen-blwydd, y naill yn 91 a'r llall yn 92 yn ystod y mis. Llongyfarchiadau ichi, mae'n dda gweld y ddwy ohonoch yn mynd am dro bach ac yn ngwasanaeth y capel ar fore Sul pan mae'r tywydd yn caniatáu.

Dathlu cyrraedd ei 80 mlwydd oed fu Eurwyn Williams, Parc, yn ystod y mis. Yn wir, nid yw'r blynyddoedd wedi gadael dim o'u ôl arnoch! Llongyfarchiadau a phob dymuniad da ichi, Eurwyn.

Dyweddio Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Angharad, Bryn Gwyn, a Cory ar eu dyweddïad. Yr un yw ein cyfarchion i Kelly Doherty, Stad Tŷ Hen a Llion o Gaernarfon. Dymunwn bob hapusrwydd ichi.

Priodas Teithio i Ynys Cyprus i briodi a wnaeth Wendy ac Ian, Ty'n Llidiart, a dathlu gyda'u teulu ar ôl dychwelyd i Gymru. Dymunwn briodas hapus ichi a chroeso i fyw atom yn y Waunfawr. Mae teuluoedd eraill wedi ymgartrefu yma yn y pentref a chroeso i chithau. Dymunwn yn dda i'r teuluoedd sydd wedi symud oddi yma i fyw mewn ardaloedd eraill.

Pen-blwydd Priodas Yn ystod y mis bu Rob ac Alma, Tan-y-Fron yn dathlu eu Priodas Aur. Llongyfarchiadau mawr ichi.

G e n e d i g a e t h
Llongyfarchiadau i Iwan a Sarah, Fferm Glyn Afon, ar enedigaeth mab bach, Thomas Hefin, wŷr bach i Pat

a Gwynedd, Cae March, a nai i Derfel a Dylan.

Diolch Dymuna Jessica, Arfon House, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cyfarchion, yr anrhegion a'r caredigrwydd a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 21 mlwydd oed yn ddiweddar.

Yn Gwella Mae'n dda gweld Dafydd Beech, Rose Mount, yn gwella wedi iddo gael triniaeth pen-glin newydd ddechrau'r haf.

Anfonwn gofion cynnes at Denise, Stad Bryn Golau, a'n dymuniadau gorau am wellhad buan wedi iddi dderbyn triniaeth i gael clun newydd yn Ysbyty Gobowen.

Croeso adref o'r ysbyty gan ddymuno gwellhad buan i Mrs Dilys Griffith a Gary Jones. Y ddau yn byw yn Stad Tref Eilian. Bu Rob Jones, Tan-y-Fron, yn derbyn gofal yn yr ysbyty am gyfnod ond mae adref ac yn gwella yn awr.

Cafodd Noa, mab Rhian a Dilwyn, Gorwel y Môr, driniaeth tynnu tonsiliau yn yr ysbyty. Gobeithio dy fod yn gwella bob dydd.

Bu Dylan Williams, 9 Stad Bryn Golau, yn derbyn gofal yn yr ysbyty. Gobeithiwn ei fod yn gwella erbyn hyn.

Da gweld fod anaf braich William, Arosfa, yn gwella a'i fod wedi cael tynnu y plaster.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Rhian a theulu Gorwel y Môr yn eu profedigaeth drist o golli ei chwaer, Nia, o Benygroes, chwaer yng nghyfraith Dilwyn a modryb annwyl Noa, Llio a Tomos.

Daeth y brofedigaeth o golli chwaer hefyd i ran Heulwen a theulu Hafod y Rhug. chwaer yng nghyfraith Alffi a modryb Ann Delyth, Gerallt, Sioned a'u teuluoedd. Cydymdeimlwn yn ddwys â chi yn eich colled a'ch hiraeth.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Margaret Jones, Glasfryn, Teras Glyn Afon, yn ei phrofedigaeth drist o golli ei mab, Emyr. Tad annwyl Gareth Wyn ac Anest, brawd Dewi, Megan, William a Carol ac ewythr hoff i'w nithoedd a'i neiaint a'u teuluoedd.

Bu'r gwasanaeth angladd ar aelwyd Glasfryn ac ym mynwent Betws Garmon.

Merched y Wawr Bydd cyfarfod cyntaf cangen y pentref yn cael ei gynnal yn y Ganolfan nos Iau, Medi 27, am 7.30 o'r gloch. Noson i groesawu, ymaelodi a chael sgwrs a mwynhau lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan aelodau y pwyllgor. Diolch iddynt.

Mae rhaglen amrywiol wedi ei threfnu am y tymor. Croeso cynnes i'r hen aelodau a rhai newydd ddod i fwynhau orig fach. Mae'r gangen yn cyfarfod ar y pedwerydd nos Iau o bob mis.

Cydymdeimlo Trist oedd deall am farwolaeth y Capten Erin Jackson, gynt o'r Waun. Mae rhai o drigolion y pentref yn ei gofio'n dda. Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at y teulu yn eu galar.

Gwasanaethau Capel y Waun am fis Medi

- 9: Parch Glenys Jones, Pwllheli
- 16: Paned a sgwrs
- 23: Cyfarfod Diolchgarwch
- 30: Robert Morris, Penygroes.

GERAINT OWEN
CARPEDI

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfa'i Mill, Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

CARPEDI
TEILS
VINYLS

DEWIS MAWR
O BATRYMAU

Cauwyd ar fyr-rybudd Gorffennaf 2018

Mae nifer o deuluoedd y preswylwyr yn cadarnhau fod y staff gofal yn rhai oedd yn mynd yr ail filltir yn aml, gan brynu hanfodion i'r preswylwyr o'u pocedi eu hunain, a hwythau ar gyflog bychan. Yr hyn sy'n gyffredin rhwng yr adroddiadau dan sylw yw fod gwendidau mawr mewn rheolaeth ac arweinyddiaeth yn y cartref. Ond yr hyn sy'n wahanol yn adroddiad Mehefin 2018 yw fod gwendidau mewn rheolaeth ac arweinyddiaeth a phethau megis – lefelau staffio; gorddibyniaeth ar staff (costus) asiantaethau allanol, a diffyg hyfforddi a goruchwyllo staff – wedi cael effaith ar safon gofal rhai o'r preswylwyr.

Mewn datganiad a baratowyd i'r cwmni methdaliad, mae cyfarwyddwyr y cwmni yn dweud – am fod AGC wedi peidio â chaniatau i'r cartref dderbyn preswylwyr o'r newydd – fod y cwmni yn gwneud colled o £20,000 y mis. Ond yr hyn sy'n destun tristwch i'r teuluoedd yw – pe byddai safon y gwasanaeth yn well, ni fyddai AGC wedi gorfod gosod y fath reol ar y cartref, a byddai hynny wedi arwain at gynyddu incwm y cwmni.

Mae Mr a Mrs Paul yn parhau i fod yn gyfarwyddwyr Church View Nursing Home a Mapleford Nursing Home yn Accrington. Cyhoeddodd y 'Care Quality Commission' adroddiad ar gartref Church View mor ddiweddar â 2 Awst 2018. Yn ôl yr adroddiad, nid yw'r "gwasanaeth yn cael ei arwain yn dda"; nid oes yno reolwr(wraig) cofrestredig, ac mae gan y comisiwn bryderon am "safon gwael y gofal".

Canlyniad hyn i gyd – ym Mhenisarwaun - yw fod oddeutu 30 o staff wedi colli eu gwaith, a bu'n rhaid dod o hyd i gartref newydd i ugain o breswylwyr – ond yn sicr fe gymerodd hynny fwy nag wythnos.

Ni all geiriau gyfleu'r pryder a'r gwewyr a brofodd y preswylwyr a'u teuluoedd, a'r holl staff yn ystod y cyfnod anodd hwn – a hynny dim ond am nad oedd cyfarwyddwyr y cwmni yn cymryd adroddiadau ac argymhellion AGC o ddifrif. Gwelwyd aelodau staff a pherthnasau mewn cyflwr emosiynol bregus iawn wrth i breswylwyr gael eu cludo mewn ambiwlans i'w cartrefi newydd. Mae gwaith ymchwil wedi gallu profi fod symud henoed bregus o amgylchedd cyfarwydd i amgylchedd dieithr yn gallu arwain at effeithiau andwyol ar eu iechyd, gan fod yn anguol mewn rhai achosion. Ym Mhenisarwaun, bu'n rhaid symud un preswlydd 98 oed i gartref ym Mhorthmadog. Bu'r wraig dan sylw yn preswyllo yng Nghartref Penisarwaun am 28 mlynedd. Mae gweddill y preswylwyr wedi eu cartrefu yn y cartrefi canlynol – Cerrig yr Afon (Y Felinheli); Fairways Newydd (Llanfairpwll) a Ceris Newydd (Bangor).

Gadawodd y preswlydd olaf Gartref Nyrsio Penisarwaun ar ddydd Iau 26 Gorffennaf. Hyd y diwrnod hwnnw, 'roedd presenoldeb Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd a staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn amlwg iawn yn y cartref, ond teimla rhai teuluoedd na chawsant y gefnogaeth ddisgwyliedig gan y cyrff hyn wrth i'w hanwyliad geisio ymgartrefu yn eu cartrefi newydd. Digon araf hefyd y llwyddodd y gwleidyddion i ddangos diddordeb yn y sefyllfa anodd ym Mhenisarwaun, ond diolchir i'r cynghorydd sir lleol am ei gefnogaeth.

Cau ffatri am resymau economaidd – mae hynny'n ddigon anodd, gan ei fod yn effeithio ar weithwyr a'u teuluoedd. Ond cau cartref nyrsio, sy'n effeithio ar henoed bregus - mae honno'n stori wahanol.

Mae dwy nyrs, sy'n fam a merch, wedi paratoi gair o ddiolch. "Sioc a hunllef i'r cleifion, teuluoedd a'r staff oedd y newyddion trist fod y cartref yn cau yn ddi-rybudd. Cyfnod anodd iawn i bawb. Er gwaethaf y sefyllfa a'r heriau, cydweithiodd pawb yn gytun gydag urddas. Gallaf ddweud fod y cysylltiadau oedd rhyngom yn ein gwneud fel un teulu mawr, ac 'rwyf yn ffyddiog y bydd hynny'n parhau i'r dyfodol.

Hoffwn ddiolch i'r awdurdodau am eu cefnogaeth dyddiol yn ddiweddar.

Diolch i staff meddygyfeydd Waunfawr a Llanberis am eu hymroddiad arbennig ar hyd y blynyddoedd.

Diolch o galon i'r teuluoedd yn y gorffennol ac yn y presennol am eu diffuantrwydd, ac am fod fel asgwrn cefn i'r staff.

Diolch i'r staff am bob dim – dymuniadau da iddynt os ydynt wedi dod o hyd i swyddi newydd "

Eirian Hughes – Jones

"Hoffwn ategu'r hyn oll y mae Eirian wedi ei ddweud. Gwerthfawrogyd yr holl gefnogaeth a chymorth a gafwyd gan bawb. Hyderaf y bydd y deiliaid yn ymgartrefu eto gyda gofal di-baid eu teuluoedd. Dymuniadau gorau i'r holl staff at y dyfodol"

Dela Hughes

CYNHELIR CYNGERDD MAWREDDOG YN YSGOL BRYNREFAIL, LLANRUG – DYDDIAD I'W GADARNHAU. CAIFF YR ELW EI ROI I GYMDEITHAS STAFF WNAETH GOLLI EU GWAITH YNG NGHARTREF PENISARWAUN (MWY O FANYLION I DDILYN YN RHIFYN NESAF YR ECO)

Derbyniwyd y datganiad hwn i'w gyhoeddi:

Cartref Nyrsio Penisarwaun

Rhai wythnosau yn ôl fe gaewyd drysau Cartref Nyrsio preifat Penisarwaun gyda'r trigolion i gyd yn cael eu hailgartrefu mewn cartrefi cyfagos. Dymuna Swyddogion Cyngor Gwynedd a Betsi Cadwaladr ddiolch yn ddifffuant i holl staff y cartref a fu'n cefnogi'r unigolion a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod anodd yma, ac wrth iddynt drosglwyddo i gartrefi eraill. Dymuniadau gorau hefyd i'r preswylwyr i gyd wrth iddynt ymgartrefu yn eu cartrefi newydd.

Cyflwyno siec ar ran Pwyllgor Budd yr Anabl, Merched y Wawr

Margaret, Eryl a Val yn cyflwyno siec i'r Hospis, o £2,200 a godwyd gan bwyllgor er Budd yr Anabl rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr. Diolch yn fawr i'r holl aelodau am eu cefnogaeth

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870292



Tymor y Gwyliau Erbyn y daw'r Eco allan o'r wasg fe fydd gwyliau'r haf o'r tu cefn inni, a'r dydd yn tynnu i mewn ac yn tywyllu yn gynnar. Ond, eleni fe gawsom haf hirfelyn tesog fel yn y blynyddoedd a fu, a braf oedd cael codi yn y bore a'r haul yn tywynnu drwy'r dydd. Oherwydd hynny roedd pawb yn teimlo yn llawer gwell. Er y tywydd braf nid oedd wrth fodd pawb. Gwelom fwy nac erioed o fynd a dod, a'r dynfa i'r Allt Ddu yn fwy nag erioed. Mae'r fan yma wedi mynd yn lle poblogaidd iawn ers tro bellach. Bu i'r plant gael mwynhau eu hunain yn yr awyr agored a chael dipyn o awyr iach. Feladdeallaffe'r arbrofi hefo'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd yn llwyddiant, a da deall hynny. Er na fûm i yng Nghaerdydd mi gefais lawer o fwyniant yn ei gwyllo ar S4C a chredaf iddynt ddod â'r Eisteddfod yn fyw iawn. Dymunaf ddiolch i S4C am eu darllediadau ardderchog o'r cyfan, gwerth chweil, a llawer iawn llai o siarad a beirniadu answyddogol. Unwaith eto eleni bu imi fwynhau yr Archdderwydd Geraint Lliffon yn arw iawn am y modd hwyliog y bu iddo gario ei waith allan. Yr oedd yn dod â llawer o ysgafnder i'r seremoniau a thrwy hynny yr oedd yn gwneud y gwaith yn hynod o ddiddorol. Ond er yr ysgafnder a'r hwyl yr oedd yn rhaid i rai gael cwyno. Daeth tipyn o wobrau i ardal yr Eco, ond os na fullwyddiant eleni mae yna dro nesaf, felly peidiwch digalonni, daw llwyddiant yn fuan iawn. Llongyfarchiadau i'r rhai a fu yn llwyddiannus.

Gadael yr Ysgol neu'r

Coleg Diwedd y tymor olaf yn yr ysgol fu hi a llawer un yn gorfod mynd ati i ennill eu bywoliaeth. Bu rhai yn lwcus yn cael swydd ac yn wynebu ar fywyd newydd ond y mae rhai o hyd yn methu cael gwaith. Peth digon digalon, ond peidiwch digalonni fe ddaw goleuni i chwithau. Yr awr dywyllaf yn aml fydd yn dwyn goleuni, mae yn rhaid aros a disgwyl weithiau, dim ond dal i gredu a gobeithio.

Arholiadau Erbyn hyn y mae'r rhai a fu yn eistedd arholiadau cyn y gwyliau wedi cael eu canlyniadau, a dim ond gobeithio eu bod yn foddhaol. Os nad ydych yn hapus efo'ch canlyniadau peidiwch digalonni, er bod pob dim yn dywyll ar hyn o bryd, mae yna dro nesaf a gwell lwc i chi. Dymuniadau gorau i bob un ohonoch a phob bendith ac iechyd i'r blynyddoedd a ddel. Mae tymor newydd yr ysgolion a'r colegau yn dod yn nes bob dydd yn awr pryd y bydd colli dagrau gan fam a phlentyn, y plentyn yn gorfod troi am yr ysgol am y tro cyntaf heb y syniad lleiaf beth sydd o'i flaen, ei fyd bach diniwed ar chwâl, ond yn fuan iawn yn arfer â'r ysgol ac yn setlo i lawr i'r bywyd newydd. Pob lwc iddynt i gyd lle bynnag y byddant yn troi ar derfyn y gwyliau.

Cofion Annwyl Iawn at Mrs Megan Morris, Minffordd gynt. Yr wyf yn deall bod Marsli yn dod ar ei gwyliau i'r cartref y mis yma ac rwyf yn sicr y bydd y ddwy yn mwynhau cwmni ei gilydd ac y bydd yna lawer iawn o siarad. Croeso adref, Marsli, mae mwy na dy fam yn falch iawn o'th weld. Hefyd, rwy'n deall fod

Gwyneth, Bryn Sardis, gynt yn dod ar ei gwyliau i Dyn y Fawnog o Awstralia hefyd. Croeso mawr ichwi eich dwy a'ch teuluoedd i'r hen ardal, gan obeithio clywed mwy o'r Gymraeg yn yr ardal unwaith eto. Bydd pawb yn falch iawn o'ch gweld.

Marwolaeth Miss Cissie Rowlands

Ar y 9fed o Awst bu farw un o aelodau hynaf Eglwys Cefn y Waun yn Ysbyty Gwynedd yng nghwmni ei theulu yn 91 mlwydd oed. Yr oedd yn efaill i Mrs Jennie Williams, 1 Rhydfadog, yn un o wyth o blant, sef pedair o ferched a phedwar mab. Fe'u ganwyd i gyd yn Gorlan a dyna lle y bu i Ciss gartrefu ar hyd ei hoes. Does dim ond un ohonynt ar ôl bellach, ei efeilles, Jennie. Bu Ciss yn aelod ffyddlon yn Eglwys Cefn y Waun ar hyd ei hoes. Pan yn fabi cafodd ei bedyddio yn yr eglwys ac yno y cafodd ei derbyn yn gyflawn aelod. Fel y mwyafrif o'r aelodau nid oedd yn or hoff o adael ei heglwys a mynd i gapel Ebeneser ond, fel y cyfan ohonom, fe ddaeth yno, yr oedd hyn yn ddealladwy a hithau wedi rhoi y fath flynyddoedd yn eglwys Cefn y Waun, ond bu iddi gartrefu yno. Yn anffodus bu i'w iechyd dorri i lawr a methodd ei phresenoli ei hun yn yr oedfaon. Yr oedd yn wraig dawel iawn, gwraig ei milltir sgwâr ydoedd ond er ei methiant i ddod i gydaddoli yn y capel bu iddi ddal i gyfrannu at yr achos hyd y diwedd. Ac, os oedd angen cyfrannu ar ryw beth arall ynglŷn â'r capel byddai ymhlith y rhai cyntaf hefo'i chyfraniad. Yr oedd ganddi gryn feddwl o'i

gweinidog ac fe'i parchodd ar hyd y blynyddoedd. Yn ystod ei hoes bu'n gweithio mewn llawer lle, yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu yn gweithio yn y Weinyddiaeth Awyr (Air Ministry) yn Chwarel Glyn, wedi hyn aeth i Ferranti Bangor ac oddi yno i Ferodo, hyd nes y bu iddi ymddeol. Ar ôl iddi fethu dod i'r capel bu imi basio llawer orig hefo hi yn y cartref. Y cwestiwn cyntaf imi bob tro ydoedd, 'Sut y mae pethau'n mynd tua'r capel?' O do, fe gadwodd ei diddordeb yn yr achos i'r diwedd. Bu ei hangladd ar ddydd Iau, 16 o Awst, yn yr Amlwgfa ym Mangor am 1 o'r goch lle y daeth tyrfa dda ynghyd i dalu'r gymwynas olaf iddi. Am dri o'r gloch y pawns cafwyd gwasanaeth wrth fedd ei thad a'i mam ym Macpella lle y rhoddwyd ei llwch i orffwys efo'i rhieni. Yr oedd y ddau wasanaeth yng ngofal ei gweinidog, y Parchedig John Pritchard, dyna oedd ei dymuniad hi. Cofiw'n gyda Diolchgarwch am Ciss gan iddi gadw'r awydd i foli Duw bob amser yn ei bywyd. 'Duwyw'r cyfaill gorau' a bydded i chi dawlwlch yn ei freichiau.

Cydymdeimlad Yr ydym fel ardal yn cydymdeimlo yn fawr hefo Mr a Mrs Alwyn Jones, 5 Bro Elidir, oherwydd ar yr 2il o Awst bu farw Ifor, brawd Alwyn, yng Nghaernarfon. Bu farw yn 59 mlwydd oed yn Ysbyty Gwynedd. Nid oedd Ifor druan wedi mwynhau iechyd ers tro. Bu yr angladd ar y 13eg o Awst yn Eglwys Gatholig Dewi Sant a Santes Helen Caernarfon a rhoddwyd ei gorff i orffwys ym Mynwent Llanbeblig. Bu iddo orffwys mewn hedd.

GEIR CYMRU

Diolch am Gefnogaeth ein Cwsmeriaid yn Eryri dros **25** Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porsche

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which? Trusted trader **01286 673559**

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Trydanwr Peiriannyddol

Ers dau rifyn diwethaf yr “Eco”, mae’r chwilio am hanes y garreg fedd yn seler y banc ym Mhenygroes wedi arwain at ddarganfod un o beiriannwyr trydan enwocaf ei oes, ac un a haedda gael ei gynnwys yng nghyfrol nesaf (os bydd un) y Bywgraffiadur Cymreig. A hogyn o Ddinorwig oedd Evan Parry.

Dangosodd Hywyn Williams fod carreg fedd newydd o farmor wedi ei gosod ar y bedd teuluol ym mynwent Llandinorwig, a hynny o bosib yn dilyn marwolaeth Evan Parry yn Llandudno yn 1938. Roedd hefyd yn credu iddo ddarganfod mab Evan, sef Evan Sidney, yn Seland Newydd; sef cofnod o’i farwolaeth yntau yn 1944, ond yn methu profi’r cysylltiad.

Roedd chwilio am y cysylltiadau â Seland Newydd – os oedd rhai – yn bur anodd a thrafferthus, ond o’r diwedd gellir profi fod y teulu wedi bod yn byw yno am bron i ddeng mlynedd – a’r fath stori!

Un cofnod byr iawn a geir yn rhifyn olaf y North Wales Chronicle am 1938 yn cyfeirio at farwolaeth Evan Parry “consulting engineer”. Rhoddir tri cyfeiriad iddo: Limpley Lodge, Llandudno, Rossmore Court, Llundain NW1 a 8 Queen Anne’s Gate, Llundain SW1. Ond bu farw (a’i weddw Margaret yn ddiweddarach) yn Sandford, Gloddaeth Avenue, Llandudno.

Rhaid oedd edrych ar Brofiant ei ewyllys i gael mwy o wybodaeth. Profwyd ei ewyllys ym mis Chwefror 1939. Mae Queen Anne’s Gate a Limpley Lodge yn cael eu henwi fel cyfeiriadau iddo, ond enwir Sandford yn llawn, sef Cartref Nyrsio. Wedi ei farwolaeth symudodd Margaret i Maes Gwyn, 40 Abbey Road, Llandudno, ond yn yr un Cartref Nyrsio y bu hithau farw hefyd. Gadawodd Evan Parry £24,987 i’r Midland Bank Executor and Trustee Company Ltd a’i wraig Margaret. Roedd Margaret hithau yn gadael arian i’r un cwmni, sef £7,560. Mae’n bosib mai buddsoddiannau oedd y symiau hyn gan nad oes cyfeiriad at y mab, Evan Sidney.

Felly, ai Evan Sidney, y mab, a fu farw yn Seland Newydd yn 1944? Bu farw yn Lower Hutt, Wellington ym mis Gorffennaf 1944. Gadawodd £10,301 i’w weddw, Mary Janet, ond mae’n ddiddorol nodi mai “Effects of £10,301 in England” a ddywedir ar y Profiant, a’i fod wedi ei selio yn Llandudno ym mis Mai 1945. Ac i gymhlethu pethau, mae cyfeiriad at Evan Sidney Parry “barrister and solicitor” yng Nghofnodion Ewyllysiau a Phrofiannau Talaith Victoria, Awstralia ym mis Chwefror 1946 – ac nid oedd yn bosib cael mwy o fanylion.

Ond roedd Evan Sidney wedi byw yn Seland Newydd ers o leiaf 1927, oherwydd yn y flwyddyn honno y priododd Mary Janet Nicol. (Roedd wedi ei geni yn Southport yn 1900, a bu fyw i fod yn 99 oed). Pryd felly yr aeth Evan Sidney i Seland Newydd? Mae rhai o gofnodion mudo i’r wlad honno ar gael, a dyna gychwyn stori ddiddorol y teulu o Ddinorwig.

Roedd y teulu yn byw yn Llundain yn ôl Cyfrifiad 1911, ac Evan Sidney yn unarddeg oed. Ond ym mis Mai roeddent ar fwrdd y llong “Corinthic” yn hwylio o Lundain am Wellington. Swydd newydd a bywyd newydd i Evan Parry a’i deulu.

Ac wedi i mi fod yn chwilio am y wybodaeth uchod ac wedi dechrau dilyn hynt y teulu yn Seland Newydd, daeth galwad ffôn gan Tegid Roberts – a wyddai hanes Evan Parry! Nid yn unig hynny, ond cofnodwyd yr hanes eisoes yn yr “Eco”. Edrychwch ar rifyn 237, sef Medi 1997. Mae’r hanes yn llawn yno, ond rhoddaf fraslun yma i’r rhai na all ei ddarllen ar wefan yr “Eco”.

Penodwyd Evan Parry gan Lywodraeth Seland Newydd i fod yn gyfrifol am y cynllun trydan-dwr cyntaf yn y wlad – ar Lyn Coleridge uwchlaw Christchurch. Cwblhawyd y gwaith erbyn



1914. Cynlluniodd weithfeydd tebyg mewn rhannau eraill o’r wlad hefyd, ond ni chawsant eu gwireddu yn ystod ei arhosiad yn Seland Newydd, er iddynt gael eu cwblhau’n ddiweddarach. Ymddiswyddodd yn 1919 a dychwelyd i Brydain. Dywedir iddo ymddiswyddo oherwydd i’r Llywodraeth wrthod rhoi car iddo, ond bellach (nad oedd yn wybyddus yn 1997) gwyddom nad oedd hynny’n wir. Credai’n gryf y dylai’r llywodraeth sefydlu corff i fod yn gyfrifol am drydaneiddio’r wlad, ond roedd y llywodraeth o’r farn mai ariannu un cynllun ar y tro oedd hi i fod. Pe bai Evan Parry wedi cael y maen i’r wal, byddai’r oll o’r wlad wedi ei thrydaneiddio yn llawer cynt.

Yn 1919 ymunodd â chwmni Preece, Cardew a Rider, ymgynghorwyr ym maes trydan. Yn rhinwedd ei swydd gyda’r cwmni hwn bu yn Rwsia (1924), India (1928) a Ceylon (1930’au) – i gyd i gynghori ar gynlluniau trydan. Bu yn ôl yn Seland Newydd hefyd yn 1938 cyn dychwelyd i Gymru oherwydd cyflwr ei iechyd, a diweddu ei oes mewn cartref nyrsio yn Llandudno.

Ond erys rhai cwestiynau. Pwy fu’n gyfrifol am osod y garreg fedd o farmor yn Llandinorwig? Tybed a ddaeth ei fab – y bargyfreithiwr – yn ôl i ofalu am osod cofeb ar fedd ei dad – ac i osod cofeb ar fedd ei fam hefyd, er mewn bedd gwahanol? Gadawodd Evan Parry, a’i weddw, arian yn eu hewyllysiau i’r Midland Bank Executor and Trustee Company. Ac yn seler yr hen Fanc y Midland ym Mhenygroes y cafwyd carreg fedd wreiddiol ei chwaer. Ai dyma’r cysylltiad?

Mae hanes Evan Parry wedi ei gofnodi ym Mywgraffiadur Cenedlaethol Seland Newydd. Onid yw’n bryd i arloeswr hynod o flaenllaw yn ei faes gael y sylw dyladwy ym mro ei febyd ac yng ngweddill Cymru?

Ceiniogau'r Meirw



Tra'n adnewyddu tŷ ym Methel y daeth y 'ceiniogau' mawr hyn i'r golwg, a Tony Roberts, Llanrug ddaeth a nhw i'm sylw. Roedd yr enw Richard Morris ar un a Torworth Morris ar y llall – enw anghyffredin iawn, nes i mi sylweddoli mai cam-sillafiad o Iorwerth ydoedd. Ond beth oedd y 'medalau' neu'r 'ceiniogau' mawr hyn?

Maent yn dyddio i gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf. Ym mis Hydref 1916 sefydlodd Lloyd George bwyllgor i ystyried bathu rhyw fath o fedal i goffhau pob milwr a llongwr a gollodd ei fywyd yn y rhyfel. Roedd i'w hanfon i deulu pob ymadawedig fel arwydd o ddiolch am eu haberth. Penderfynwyd cynnal cystadleuaeth i ddarganfod y cynllun gorau, ond roedd yn rhaid i'r geiriau "He/She died for Freedom and Honour" gael eu cynnwys. Cynigiwyd £500 o wob. Ymgeisiodd dros 800 am wob mor hael, a'r enillydd oedd Edward Preston o Lerpwl. Dechreuwyd eu bathu ar ddiwedd y rhyfel. Mewn ffatrioedd gwneud arfau y cai y gwaith ei wneud. Bathu medalau coffhau y rhai a laddwyd yn yr union ffatrioedd a fu'n gyfrifol am wneud arfau i ladd!

Amcangyfrifir fod tua 1,355,000 wedi eu cynhyrchu o ddiwedd y rhyfel hyd ddechrau'r 1920'au – ond roedd rhai'n parhau i gael eu bathu yn y 1930'au i gofio am rai fu farw o ganlyniad i anafiadau yn y rhyfel. Defnyddiwyd 450 tonn o efydd i wneud y gwaith. 'Memorial Plaque' oedd yr enw swyddogol arnynt, ond buan y daethant i gael eu galw yn Geiniog y Milwr neu Geiniog y Marw (Dead Man's Penny). Tybed faint ohonynt sy'n parhau ym meddiant teuluoedd y fro heddiw?

Ond beth am Richard a Iorwerth Morris – a'u cysylltiad posib â Bethel?

O chwilio cofnodion milwrol deuthum o hyd i ddyddiadau marw y ddau. Lladdwyd Iorwerth yn Fflandrys ar y 3ydd o Fedi 1916. Lladdwyd Richard ar y 10fed o Fedi 1916 – eto yn Fflandrys. Gyda'r wybodaeth hon roedd yn bosib darganfod mwy. Roeddent yn frodyr, ond yn perthyn i ddwy gatradd wahanol: Iorwerth i'r Royal Welch Fusiliers a Richard i'r Welsh Guards.

Ymunodd Iorwerth ('listio' fel y'i gelwid) ar yr ail o Chwefror 1916 yn Llanberis. Rhoddai ei oed fel 19 mlwydd a 10 mis. Fe'i hanfonwyd i Barc Kinmel i'w hyfforddi, ac oddi yno i Faes y Gad. Ymuno ym mis Chwefror a'i ladd ym Medi. Methais a chael y math hwn o wybodaeth am Richard. Tybed a wyddai'r brodyr eu bod yn Fflandrys yr un pryd, ac a gafodd Richard wybod fod ei frawd wedi ei ladd – a hynny wythnos yn unig cyn iddo yntau hefyd ddioddef yr un dynged?

Mae'r brodyr wedi eu cofnodi ar Gyfrifiad 1911, sef meibion Edward Foulk Morris a Jane Ellen, ei wraig, o Bwlch Uchaf, Ebenezer. Bryd hynny roedd Richard yn ugain oed a Iorwerth yn dair ar ddeg oed. Roedd brawd arall, Johnny, yn ddwy ar bymtheg. Tybed a fu iddo yntau hefyd ymuno â'r fyddin?

Daeth dwy Geiniog y Meirw yn ôl i Fwlch Uchaf i goffhau dau frawd a fu farw o fewn wythnos i'w gilydd yn Fflandrys. Tybed beth oedd ymateb y rhieni o'u derbyn? A beth oedd yr achos iddynt ddod i'r amlwg mewn tŷ ym Methel?

Bydd mwy am hanes y brodyr yn y rhifyn nesaf – diolch i Hywyn Williams, a chawn wybod hefyd am filwr arall a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, â'i gartref ar Allt y Foel.

Ac o gyfnod yr Ail Ryfel Byd, llun a hanes Sbeshials Bethel.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515) e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

ARVONIA

- ✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓ Adran teithiau grŵp.
- ✓ Tocynnau rhodd.
- ✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvoniaco.uk

RHOSTIO MOCHYN

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER POB ACHLYSUR

DEWCS MAE O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwy

CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf,
Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

Llongyfarchiadau mawr i Sion, Stad Glan Dŵr, ac i Ifan, Dolgynydd Uchaf, ar eu llwyddiant yn yr arholiadau TGAU, ac i Elan, Erw Wen, yn yr arholiadau AS.

Hefyd i Betsan Ceiriog sydd wedi graddio eleni o Goleg Cerdd a Drama, Caerdydd.

Dymuniadau gorau i chi i gyd yn y dyfodol.

Gwasanaethau y Capel.

Ar y Sul Medi 2il am 2.00 gwasanaethir gan y Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson.

Ar y Sul Medi 16 am 2.00 gwasanaethir gan y Parch Huw Dylan, Llanuwchllyn.

Swydd Newydd Wedi ennill gradd Meistr mewn Caffael a Strategaeth (LLM) o Brifysgol Bangor eleni mae Gwen Angharad, Dolgynydd Uchaf, wedi cychwyn ar ei swydd fel Swyddog Ymchwil a Gorfodi dan adain Comisiynydd y Gymraeg. Llongyfarchiadau i ti, Gwen.

Priodas Ar ddydd Sadwrn, Gorff 14, yng Nghapel Salem, Caernarfon, priodwyd Mari Gwenllian, merch Derwyn a Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, a Glyn, mab Dafydd a Vera Price, Tan y Graig, Cwm y Glo, dan ofal y Parch J. Ronald Williams, ac i ddilyn yng Ngwesty Portmeirion lle roedd gwres yr haul, y gwmniaeth a'r wledd yn gofiadwy iawn. Llongyfarchiadau Mari a Glyn.

Clwb Merched. Byddwn yn cyfarfod yn y Ganolfan am 8.00, nos Iau, Medi 20ed i drefnu gweithgareddau 2018--2019. Croeso cynnes i bawb.

Tynfa Misol

Mis Gorffennaf: 1af (58) £40: Sandra Roberts, 5 Bryn Gof; 2il (71) £25: Clive James, Hafan; 3ydd (74) £15: Mark Bee, 4 Bryn Gof; 4ydd (32) £5: Llinos Griffiths, Llain Las.

Mis Awst: 1af (67) £40: Pat Jones, Tyddyn Cae; 2il (102) £25: Llio Jones, Glanrafon; 3ydd (21) £15: Arwel Evans, 8 Rhes Glangwna; 4ydd (89) £5: Derwyn Roberts, Cefn Rhos Isaf.

Cae Chwarae Yn ystod y drydedd wythnos o Awst roedd biniau ger Stad Bryn Gof ac o fewn y cae yn llawn i'r ymylon ac yn gorlifo (da iawn eu bod yn cael eu defnyddio i sbwriel ac i'r bagiau baw ci). Wedi un alwad ffôn i'n cynghorydd, Edgar Owen, roedd y cyfan wedi ei glirio gan y Cyngor y bore dilynol, a diolch i Mr Owen am ei ddylanwad!!

CWMY GLO

Priodas Ar ddydd Sadwrn, Gorff 14, yng Nghapel Salem, Caernarfon, priodwyd Glyn, mab Dafydd a Vera Price, Tan y Graig gyda Mari Gwenllian, merch Derwyn a Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Caethro, dan ofal y Parch J. Ronald Williams. Cafwyd y wledd yn Portmeirion lle roedd yr haul a'r gwmniaeth yn gynnes a chofiadwy. Llongyfarchiadau Glyn a Mari.

Llongyfarchiadau i Dee Edwards, Wrth y Becws, ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 60 oed.

Llongyfarchiadau hefyd i blant y pentref ar eu llwyddiannau yn yr arholiadau.

Profedigaethau Daeth profedigaeth i ran amryw yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Collodd Josh Green, Bod Iestyn, ei dad, Clive Green, yng Nghaernarfon. Estynnwn ein cydymdeimlad â Josh a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Bu farw Mrs Hannah Jones, Tawel Lan, Llanberis, priod y diweddar Mr Eurwyn Jones, cyn-brifathro'r ysgol. Bu Mrs Jones yn aelod ffyddlon o gangen Merhed y Wawr a bu hefyd yn cynnal dosbarthiadau crosio a chymerodd ddiddordeb yn holl weithgareddau'r pentref. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

Daeth dwy profedigaeth lem i ran Gwyndaf Lewis a'r teulu, 14 Dôl Afon. Collodd ei chwaer Nerys Jones yn Llanrug ac mewn pythefnos collodd ei briod, Brenda, mam annwyl Elaine, Wayne ac Andrea a nain falch ei hwyrion a'i wyresau. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

Daeth y newydd trist i'r pentref fod Wavell Roberts, gynt o Lanrug, ein cigydd bro am flynyddoedd, wedi ein gadael ar ôl salwch blin. Estynnwn ein cydymdeimlad yn ddwys â'i briod, Elizabeth a'r plant, Lynda, Dawn a Wendy a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

PENISARWAUN

ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

Cartref Nyrsio Penisarwaun Rai wythnosau yn ôl fe gaewyd drysau Cartref Nyrsio preifat Penisarwaun gyda'r trigolion i gyd yn cael eu hailgartrefu mewn cartrefi cyfagos. Dymuna Swyddogion Cyngor Gwynedd a Betsi Cadwaladr ddiolch yn ddiffuant i holl staff y cartref a fu'n cefnogi'r unigolion a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod anodd yma, ac wrth iddynt drosglwyddo i gartrefi eraill. Dymuniadau gorau hefyd i'r preswylwyr i gyd wrth iddynt ymgartrefu yn eu cartrefi newydd.

Llongyfarchiadau i Owain ac Elin, Meillionydd, ar enedigaeth merch fach, Heledd Peris Morris. Mae Owain yn wreiddiol o Lanberis ac Elin o'r Groeslon ond ganwyd hen, hen, hen daid i Heledd, William Evan Roberts, ym Mryn Hywel, Penisarwaun ym 1855!

Ysgol Sul Bosra Edrychir ymlaen at groesawu pawb yn ôl i'r Ysgol Sul ar Fedi'r 9fed am 10.00. Dymunir llongyfarch ein cyn-aelodau ar eu llwyddiant yn yr amrywiol arholiadau a phob bendith iddynt ym mha bynnag faes y byddant yn ei ddilyn. Pob dymuniad da hefyd i Branwen, Ela, Guto a Siôn Dafydd yn Ysgol Brynrefail. Llongyferchir Mrs Eluned Jones, Cae Corniog, un o Ymddiriedolwyr y capel ar gyrraedd 90 mlwydd oed. Llongyferchir aelodau'r Ysgol Sul am gasglu £100 tuag at y Genhadaeth Dramor.

Ein cydymdeimlad dwys â Nancy a Dilys, chwiorydd Mr Evie Jones yn eu profedigaeth o golli gŵr Anti Nancy a brawd yng nghyfraith i Anti Dilys.

Ein cydymdeimlad hefyd ag Aled Green a'r teulu yn eu profedigaeth lem, yntau yn Ymddiriedolwr o Gapel Bosra.

Pwyllgor Neuadd Bu'r gweithgaredd 'Hwyl Haf' yn llwyddiannus iawn a hynod gymdeithasol gyda stondinau, tombola, raffl a chyfle i gael clonc uwch banded a bisged. Bu'r rasys i'r gwahanol oeddrannau yn llawn hwyl a'r ras o amgylch Llŷs y Gwynt ynghyd â'r hwyl o daflu esgid law. Tynnwyd Clwb Cant Gorffennaf ac Awst a'r enillwyr oedd: Gorffennaf: Christian Branch, Clwt y Bont ac Irfon Hughes, Waun.

Awst: Megan Glyn, Gors, Brynrefail a Gwen Griffith, Tai Arthur.

Ein cydymdeimlad fel aelodau Pwyllgor ag Aled Green a'r teulu yn eu profedigaeth sydyn o golli Norma, gwraig, mam, mam yng nghyfraith a nain annwyl. Diolch i Aled am ei rodd tuag at y gost o redeg y Neuadd Gymuned.

Eisteddfod Bentref Wedi amser prysur o ymarfer yn yr ysgol a phob nos Lun gyda Anti Marina, John Eifion, Anti Ann ac Anest, cafwyd Eisteddfod hynod lwyddiannus a chymdeithasol gyda nifer wedi aros i gefnogi hyd y diwedd. Dymunir diolch i staff yr ysgol am eu cefnogaeth wych eto eleni ac i chwi, rieni, am eich anogaeth i'r plant. Bu'r beirniaid i gyd yn hynod gefnogol gyda sylwadau calonogol ymhob cystadleuaeth. Diolch o galon i Mererid Mair a Heddwen Lois: y beirniaid Canu a Llefary; Celf a Chrefft: Lowri Fretwell; Coganio: Jean Roberts; Limrig a Chreu Brawddeg: Arwel Jones; Cyfrifiadureg: Dafydd Evans a'r holl waith Llên gyda beirniadaethau calonogol gan Mr Alwyn Pleming, cyn Bennaeth y Gymraeg yn Ysgol Brynrefail. Ein diolch hefyd i'r Arweinyddion ac i'r Cyfeilyddion, Anest a Lois Eifion. Ein llongyfarchiadau i'r Prif Lenorion, sef Branwen, Bl 6 ac Elin Thomas, Ysgol Brynrefail. Gobeithir cael canlyniadau llawn erbyn y rhifyn nesaf ac edrychir ymlaen at Eisteddfod lewyrchus yn 2019.

Gwellad Anfonwn eich cofion at bawb sy'n sâl yn y pentref a dymunir gwellhad buan i Mrs Betty Pritchard, 3 Llŷs y Gwynt wedi ei chodwm gan frifo'i braich.

Diolch o Galon Dymuna Ann a Dafydd, Sycharth, ddiolch o galon i Eurgain, Bedwyr, Osian a'r teulu am y dathliad arbennig ar achlysur eu Priodas Aur. Diolch hefyd i aelodau'r teulu, cymdogion a ffrindiau a hyd yn oed gyfarchion gan gyn-ddisgyblion. Diolchir am y llu cardiau, anrhegion a'r blodau bendigedig.

Llongyfarchiadau i Twm Herd ar fod yn fuddugol mewn cystadleuaeth i ddisgyblion 16 ac o dan 19 oed yn creu casgliad o ddarnau mewn unrhyw gyfrwng na chymer fwy nag wyth munud gyda gwobr hael o £200. Da iawn chdi, Twm. Dal ati!

Llongyferchir pawb fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod ac yn y Sioeau.

Eisteddfod Penisarwaun



Cystadleuwyr Adran Babanod a Meithrin



Cystadleuwyr Adran Iau – Llefaru a Chanu



Elin, y Prif Lenor Uwchradd



Branwen, y Prif Lenor Cynradd



Branwen yn derbyn Tlws Er Cof am Nancy a Leslie Jones, Meillionydd gyn, gan eu merch Anwen.

FFARWELIO Fel y nodwyd yn y rhifyn olaf, erbyn hyn rydym fel ardal wedi ffarwelio a thri a roddodd flynyddoedd o wasanaeth mewn sawl cyfeiriad, sef Glenys a Morgan Griffiths, Llwyn Eithin a Nia Guillemin a fu'n brifathrawes Ysgol Bethel am bron i 20 mlynedd. Fe ddatlwyd y ddwy 'ffarwel' ac roedd y rhifau lluosog a drodd i fyny yn y tē bach yn y Cysegr, a'r noson gymdeithasol yn y Neuadd yn dweud cyfrolau. Yn sicr, bydd bylchau mawr i'w llenwi yn yr ymadawiadau hyn. Fel ardal, rydym yn dymuno'r gorau i Glenys a Morgan draw yn ardal Llanharan, ac i Nia a'i gŵr Bruno draw yn Ffrainc. Bon chance!



I Glenys a Morgan – gyda diolch

Di-flino, byw credoau, - hael eu nawdd,
rhoi'r blynyddoedd gorau.
Dros eraill, dau roes oriau,
colli dwfn yw colli dau.

Yn Glenys, llanw'r glannau – daw ei gŵr
o had gwâr y bryniau.
Gŵr cofnod, merch y nodau
colli dawn yw colli dau.

Gwarchod oedd gorchwyl y Suliau – wastad
i'r ystod oedrannau.
Rhoi dysg tu hwnt i'r desgiau
colli dweud yw colli dau.

Bwlch rhagor yn y pwyllgorau, - daw rhai
i agor drws ein pnawniau?
Oes addo'i lenwi'r seddau?
colli dod yw colli dau.

Yn gaer i blant neu gorau, - llawn o'n hiaith
Llwyn Eithin, tŷ'r doniau.
Gwireb undeb eich ffrindiau,
ennill doe oedd ennill dau.



I ddiolch i Nia am ei harweiniad a gwasanaeth

I'r llwybrau, parch, eu gwartchod, - dyluniodd
hyd lôn annibendod
ffordd dda, roedd i Nia'r nod,
rhoi octen i Gymreictod.

NEWID ARDAL Wrth ymadael â Bethel, hoffai Glenys a Jenkin Griffiths ddiolch yn fawr iawn i drigolion yr ardal am gyfeillgarwch hapus dros y blynyddoedd ac am yr holl ddymuniadau da ddaeth iddynt wrth gychwyn am y de. Diolch a chofion, Glenys a Jenkin.

AIL GYCHWYN Fel gyda'r tymor ysgol, bydd yr Ysgol Sul yn ail-agor yn y Cysegr am 10a.m. ar fore Sul, Medi'r 9ed. Mae croeso i unrhyw blentyn ymuno, a bydd yr athrawon gweithgar, brwdfrydig yn edrych ymlaen i groesawu y plantos. Hoffai'r plant ddiolch i'r athrawon am drefnu y trip ysgol Sul diwedd tymor diwethaf. Y gychfan oedd Hafan y Môr, Pen-ychain neu mewn 'hen brês' Butlins. Cafwyd diwrnod hwyllog, a phawb wedi eu plesio.

PRYNHAWNIAU COFFI Bu'r rhain yn hynod boblogaidd ac yn elfen gymdeithasol i ddenu ardalwyr i'r pnawniau yn y Neuadd Goffa. Hoffai pwyllgor pnawniau coffi Mcmillan gyhoeddi y bydd yr elw o'r pnawniau eleni yn cael eu cydrannu rhwng Cronfa Mcmillan ac hefyd Cronfa Ymchwil Afiechyd y Motor Neuron. Yn y tē mis Gorffennaf cyfranwyd £677 at Gronfa Mcmillan. Cynhelir achlysur mis Medi yn y Neuadd Goffa am 2pm. ar ddydd Gwener, Medi 28.

CAFFI GALW I MEWN Cofiwch droi i mewn i'r Neuadd ar fore Mawrth, 25ain o Fedi am baned, cacen a sgwrs. Croeso i bawb.

LLONGYFARCHIADAU Dymuna Eirlys Hughes (Bro Rhos), longyfarch ei ŵyres Gwawr- Hughes Owen o Bontrug ar lwyddo yn yr arholiad canu Gradd 3 gyda rhagoriaeth. Diolch arbennig i Sian Gibson am ei hyfforddiant a chefnogaeth. Mae Gwawr yn lais cyfarwydd ar lwyfanau ein eisteddfodau lleol ac edrychwn ymlaen i ddilyn ei datblygiad cerddorol. Yn ymuno yn y llongyfarchiadau mae Iwan, Eirian, Sara Lois Fflur Wyn.

ARWEINWYR LLEOL Bydd y llinellau ffôn rhwng Bethel a Llanrug yn brysur eleni. Meirwen Lloyd o Lanrug yw Llywydd Merched y Wawr eleni, ac yn llenwi y swydd fel Ysgrifenyddes Cenedlaethol bydd Anne Elis o Fethel. Wrth eu llongyfarch dymunwn yn dda iddynt yn arwain y mudiad gweithgar yma led-led Cymru.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL Mae nifer yn cytuno fod yr Ŵyl 'ddi-ffens' eleni wedi bod yn llwyddiant ac wedi denu nifer o'r di-Gymraeg i'r Bae. Roedd y safon yn aruchel a braf cofnodi teilyngdod ym mhob un o'r prif seremoniau. Yn y dawnsio disgo daeth grwp cyfredol Angylion Kelly yn ail. Cawsant eu trechu gan y grwp hŷn, sef cyn-aelodau o'r angylion a ddaeth at ei gilydd i hyfforddi ar gyfer y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau mawr i Kelly a'r genethod. Bydd Gwion Jones, Stad Eryri yn siwr o elwa o berfformio ar y prif lwyfan yng nghystadlaethau Cân o Sioe Gerdd a Gwobr Goffa Richard Burton. Roedd unigolion o'r pentref yn aelodau o'r gwahanol fandiau – clasurol a roc - lleol hefyd. Profiad amhrisiadwy.

Enw amlwg arall yn yr Ŵyl oedd Huw Foulkes, Tyddyn Gwndwn gynt. Ef oedd y Cyfarwyddwr Cerdd yn y Sioe 'Hwn yw fy Mrawd' a lanwodd y Pafiliwn am ddwy noson. Arweiniodd Côr Dydd gydag 86 o aelodau i gipio cystadleuaeth y Corau, a derbyn Tlws Côr yr Ŵyl. Bydd eu datganiad o'r emyn dôn Llef yn aros yn hir yn y cof. Ni ellid dianc rhag enw Geraint Thomas hyd y Maes, ac yn yr wythnos flaenorol bu Huw yn chwarae rhan blaenllaw yn trefnu gwasanaeth y BBC o'r Tour de France. Ers 2014 mae Huw wedi arwain Academi Berfformio Caerdydd a gwelwyd sawl egin o'r Academi ar y prif lwyfan. Yn sicr, fel ardal gallwn ymfalchio yng ngyfraniad safonol Huw i'r byd cerddorol yng Nghymru.

EISTEDDFOD BETHEL Mae'r Daflen Destunau bellach ar gael yn y Post. Cynhelir yr Eisteddfod eleni yn y Neuadd Goffa ar brynhawn a nos Sadwrn, Hydref 20ed gan ddechrau yn brydlon am 12.30pm a 6.30pm. Y tair beirniad eleni yw Nia Evans, Aelwyd Môn (Cerdd), Sian Teifi, Llanfaglan (Llefaru a Llên) ac Elan Rhys, Bethel (Celf). Edrychwn ymlaen at gefnogaeth dda i'r pwyllgor gweithgar, a chystadlu niferus o safon.

Parhad BETHEL

CYDYMDEIMLO Danfonwn fel ardal ein cydymdeimlad dwys i Vera, Nan, Dewi a’r teulu estyngedig yn eu tristwch o golli gŵr, tad a thaid/ hen daid arbennig iawn sef Seiriol Davies, 9 Y Ddôl. Roedd Seiriol yn ddyn hynaws iawn, a thra bod iechyd yn caniatáu wedi cymysgu yng nghweithgareddau y pentref ers iddo ef a Vera symud i Fethel o Gaerdydd pedair blynedd yn ôl. Roedd yn ddarlithydd mewn adeiladwaith ac hefyd yn artist o safon, yn enwedig tirluniau. Un o fechgyn y Rhôs, ac ymfalchiai yn y fagwraeth a luniodd ynddo yr ysbryd o gymwynas.

Oes arall greodd Seiriol, - oes aur iaith, oes y Rhôs lofaöl.
Cwmwd agos, cymdogol; o ‘nene aeth, ‘nene’n ôl.

DECHRAU’R DAITH Llongyfarchiadau i Ffion Haf, Rhês Bryn Hyfryd ar ddathlu ei phenblwydd yn 18 oed ganol Awst. Yn dilyn ei llwyddiant yn arholiadau lefel A bydd Ffion yn dechrau cwrs Addysg ym Mhrifysgol Bangor ym mis Medi.

LLONGYFARCHIADAU Y tymor yma mae Hugh Davies, Bro Rhos yn dathlu 60 mlynedd di-dor fel dyfarnwr yng nghyngreiriau pêl-droed Gogledd Cymru. Tipyn o record. Faint o gemau tybed? Cafodd ei anrhegu a thlws pwrpasol gan yr awdurdodau yn ddiweddar. Bu’n dweud ei hanes ar raglen Ar

y Marc. Dechrau dyfarnu am iddo dorri ei fys fel gôl-geidwad. Yn1966 tynnu cryn sylw pan ddanfonodd y ddau dîm oddi ar y cae mewn gêm rhwng tîm Orig yn Nyffryn Nantlle a Llandudno. Mae sawl stori am ddigwyddiadau pan roedd Hughie yn dyfarnu timau Orig! Dyfarnodd sawl rownd derfynol. Ar Sadyrnau bellach ‘rhedeg y lein’ bydd Hughie mewn gemau lleol, ond mae’n dal i chwythu’r bib yn dyfarnu gemau ysgolion a cholegau.

ARHOLIADAU Mae’n ymddangos fod y mwyafrif o ddisgyblion y cylch a dderbyniodd eu canlyniadau lefel A a T.G.A.U. wedi eu plesio. Byddent felly yn gallu dilyn eu llwybr benodol o addysg uwch, dychwelyd i’r 6ed dosbarth, neu fel sy’n gynyddol dilyn cyrsiau galwedigaethol drwy dderbyn prentisiadau. Wrth eu llongyfarch dymunwn y gorau iddynt. Yr un yw ein dymuniadau i’r rhai fydd yn gadael y sector cynradd i’r uwchradd eleni.

Diolch Dymuna John Maldwyn a Mair Jones, Tan y Buarth ddiolch yn fawr iawn i drigolion y cylch am yr holl gardiau a blodau i gydnabod eu pen-blwydd priodas arbennig sef 60 mlynedd yn ddiweddar."

COFION Mae sawl un yn y pentref yn neu wedi wynebu cyfnodau yn yr ysbyty yn ddiweddar. Danfonwn ein dymuniadau iddynt a’u teuluoedd yn y brwydrau sydd yn eu herio. “ Hir yw’r nych drwy oriau’r nos / Y wawr sy’n mynnu aros.”

Drysau’n agor i drysorau pensaernïol Gwynedd a Chonwy

Bydd nifer o adeiladau, gerddi a lleoliadau diddorol ac anarferol hanesyddol ledled Conwy a Gwynedd yn agor i’r cyhoedd am ddim y mis Medi hwn.

Fel rhan o gynllun ‘Drysau Agored’ CADW, bydd mwy na 50 adeilad ar draws Conwy a Gwynedd yn agor eu drysau i’r cyhoedd fel rhan o raglen flynyddol sy’n dathlu treftadaeth bensaernïol Cymru.

Drwy gydol mis Medi, bydd digwyddiadau a gweithgareddau'n cael eu cynnal mewn lleoliadau ar draws y ddwy sir, gyda chyfleoedd i drigolion lleol ac ymwelwyr gael blas ar hanes a threftadaeth yr ardal. Eleni bydd y rhaglen yn croesawu ychwanegiadau newydd.

Bydd cyfle i ddathlu treftadaeth llechi cyfoethog Gwynedd drwy

ymweld â nifer o safleoedd sydd wedi eu cynnwys yn enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru, gan gynnwys gweld drosoch eich hun offer meddygol gwreiddiol yr 1800au yn yr Ysbyty Chwarel, Llanberis.

Mae manylion yr atyniadau a fydd yn agored fel rhan o ‘Ddrysau Agored’ wedi’u cyhoeddi mewn taflen a gynhyrchwyd ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Gwynedd. Mae copïau ar gael o Ganolfannau Croeso a safleoedd treftadaeth ar draws Conwy a Gwynedd. Gallwch lawrlwytho’r daflen a dod o hyd i fwy o wybodaeth am Ddrysau Agored yn www.conwy.gov.uk/drysauagored. Gall sefydliadau diwylliannol gofrestru o hyd ar gyfer eu cynnwys yn www.cadw.llyw.cymru/drysauagored



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

“Diolchgarwch”

Bu hin haf eleni’n dra gwahanol ...
o fis Mai, wythnosau o haul a gwres,
cnydau yn euro, dolydd trofannol
a’r pellter yn sgleinio – crynu’n y tes
Bu’r misoedd hir-felyn, cynta’n bleser-
yn destun syndod, rhyfeddod a rhwysg ...
dydd ar ôl dydd yn gwawrio fel procer
eirias o’r dwyrain draw yn lliwus frwysg.

Buan y clywyd y rhincian dannedd ...
buan daeth grwgnach,- ffynhonnau heb ddŵr,
buan daeth ofn am heth a’i gynddaredd
a buan darogan prisiau a’r stŵr ...

Angof drwy’r cyfan ‘r ysgrythurau gan ddyn
“Gofala ‘fory am ei ddrwg ei hun.”

Norman Closs



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



Profiad Gwaith

Treuliodd Blwyddyn 10 a Blwyddyn 12 wythnos o Brofiad Gwaith gyda chyflogwyr yr ardal ym mis Gorffennaf a Gwyl Awgust. Rhoddwyd cyfleoedd iddynt feithrin sgiliau newydd a datblygu ar eiddau a busnesau rhinweddau presennol, yn ogystal â rhoi blas iddynt o fyd gwaith.

Mae adborth y disgyblion wedi bod yn hynod frwdfrydig ac roeddynt yn werthfawrogl iawn o'r cyfle i ddefnyddio'r wythnos ar brofiad gwaith. Cafwyd hefyd ymateb cadarnhaol gan y cyflogwyr, a derbyniwyd sawl neges i'w canmol parodrwyd y disgyblion i ymwneud â thasgau gwahanol ac am eu parch a'u cwrteisi. Ambell ugeiniad cynnig swydd!

Mae'r ysgol yn hynod o ddiolchgar i gyflogwyr yr ardal am roi'r cyfleoedd pwysig hyn i ddisgyblion Ysgol Brynrefai.



Adran Dylunio a Thechnoleg - Gwobrau Arloesedd Cymru 2018

Llongyfarchiadau mawr i Harri Tulliver blwyddyn 13 ar ôl cael ei enwebu gan yr arholwr allanol ar gyfer ei ddylunio a chreu o Gwobrau Arloesedd 2018. Roedd gwaith dylunio a chreu Harri wedi creu argraff fawr ar yr arholwr. Erbyn hyn rydych chi'n gwybod newyddion fod y gwaith yn symud ymlaen i'r rownd nesaf ac yn cael ei arddangos yn ystod y cam arddangos Gwobrau Arloesedd Cymru 2018. Mae Harri wedi llwyddo i ddylunio a chreu cynnyrch o safon uchel sy'n datrys problem real ar gyfer pobl sydd yn dioddef o arthritis. Mae'r cynnyrch mae wedi ei ddylunio a chreu am ymgyhoeddwr sydd yn dioddef o arthritis o ddydd i ddydd wrth iddynt gwblhau tasgau e.e. agor caeadau boteli plastig heb gwydr. Rydym yn falch iawn o lwyddiant haeddiannol Harri yn dilyn ei waith called yn yr adran Dylunio a Chreu yn ystod blwyddyn 12.



fennaf, fel rhan
eu sgiliau a'u
reulio cyfnod o
s ganddynt yn
un wedi cael
ol Brynrefail.



y gwobrau ar-
m wedi derbyn
angosfa o'r
ydd yn datrys
a gefnogi pobl
a photeli
a Thechnoleg

Cwrs Coginio Brynrefail

Yn ystod y tymor diwethaf cwblhaodd criw bach o ddisgyblion blwyddyn 9 gwrs coginio arbennig iawn wedi ei drefnu gan TRAC. Y criw oedd Celt Rowlands, Harri Jones, Shaun Lee Roberts, Llyr Jones a Mair Jones. Cawsant gyfres o sesiynau mentora a choginio mewn grwp er mwyn gwella hunan hyder, gwella eu sgiliau, codi eu hunan werth a'u sgiliau cymdeithasol a chael cyfle i ddysgu am ddeiet a byw'n iach. Erbyn diwedd y sesiynau llwyddodd y criw i goginio llwyth o fathau gwahanol o gacennau, flapjacks a shortbread ar gyfer cyflwyniad ar ddiwedd y cyfnod. Mi weithiodd y criw yn galed iawn am dair gwrs i goginio'r bwyd ar gyfer y cyflwyniad ac roedd popeth yn edrych yn wych ganddynt. Ar ôl i bopeth gael ei osod allan ar y bwrdd mi ddaeth athrawon, disgyblion a rhai o aelodau o deuluoedd y plant i fewn i gael blas ar y bwyd blasus. Yna, cafodd y pedwar oedd yno eu cyflwyno â thystysgrifau gan arweinwyr y cwrs (Hyfforddiant Gogledd Cymru) lle roeddent yn derbyn tystysgrif, ffedog a ffeil yn llawn cynhwysion a'r tasgau yr oeddent wedi eu cyflawni. Profiad gwych i'r disgyblion a gweithgarwch ac ymdrech arbennig ganddynt yn unigol ac fel tîm.



Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch

Bydd yr eisteddfod eleni yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn, yr 26ain o Hydref 2018, yn neuadd Ysgol Gwaun Gynfi, i ddechrau am 12 o'r gloch y prynhawn a 6.30 yr hwyr. Yn beirniadu eleni fydd:

Cerdd a Cherdd Dant: Rhian Owen (Llanberis gynt) Caerdydd yn y prynhawn a Dylan Cernyw gyda'r nos;
Llefaru:-Carwyn John,-Bethel;
Llenyddiaeth: Elinor Gwyn, Rhosgadfan;
Gwau, Gwnio a choginio: Anita Long, Brynrefail;
Arlunio, Gwaith, Llaw a Ffotograffiaeth: Gareth Roberts, Gallt y Foel, Deiniolen;
Cyfeilydd: Annette Bryn Parri, Deiniolen.

Mae rhestr testunau ar gael yn awr mewn siopau lleol neu gan aelodau'r pwyllgor. Dewch yn llw

i gefnogi.

Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd

Llongyfarchiadau mawr i Fand Deiniolen ar eu llwyddiant yn yr eisteddfod ac i Osian Trefor Hughes a ddaeth yn 3ydd yn y gystadlueaeth Unawd Bechgyn rhwng 12 a 16. Da iawn wir.

Coleg / Ysgol Yn dilyn cyfnod yr arholiadau bydd llawr o bobl ifanc y pentref yn wynebu cyfnod newydd mewn colegau addysg bellach neu brifysgolion. Dymunwn pob llwyddiant iddynt gyda'u astudiaethau.

Bydd llawer o blant y pentref hefyd yn dechrau yn yr ysgol gynradd ac uwchradd, yn yr un modd dymunwn pob hapusrwydd iddynt oll.

Ail sefydlu Cymdeithas Llenyddol Deiniolen Ar ôl cyfnod o saib diweddar, mae'n fwrriadail gychwyn y Gymdeithas gyda'r cyfarfod cyntaf i'w gynnal

ar Fedi 24ain yn Nhŷ Elidir am 7.00. Gobeithio y daw aelodau hen a newydd draw i gefnogi'r nosweithiau fydd yn cael eu cynnal yn ystod y gaeaf.

Dymuna Ernest, Jennifer ac Arwyn ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli Margaret Ellen, Hafan, Porth Gogledd, gwraig a mam arbennig iawn. Diolch am y rhoddion hael tuag at achosion lleol. Diolch i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth ac i gwmni E.W. Pritchard, Llanberis am eu gwasanaeth parchus.

Cydymdeimlad Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu, ffrindiau a chymdogion Lynne Warner, Rhes Faenol, a fu farw'n frawychus o sydyn yn ddiweddar. Mae ein meddyliau gyda chi i gyd ar yr adeg ofnadwy o drist yma.

Diolchiadau Dymuna Mrs Jennie Williams, 1 Rhydfadog ddiolch o galon i deulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl garedigrwydd a dderbyniwyd ac a werthfawrogwyd yn fawr ar yr achlysur trist o golli ei hefeilles, Miss Cissie Rowlands, Gorlan. Diolch am y galwadau ffôn, cardiau a llythyrau a'r rhoddion hael a dderbyniwyd. Bu hyn o gymorth mawr iddi. Diolch yn arbennig i'r gweinidog, y Parch John Pritchard am ymweld â hi yn yr ysbyty ac am y gwasanaeth teimladwy yn yr Amlwgfa ac yn dilyn ar lan y bedd ym Mynwent Macpela Deiniolen.

Diolch i Jane a Gwynfor (E.W. Pritchard) Cyfarwyddwyr Angladdau Llanberis am ei thywys drwy gyfnod anodd, hefyd am eu gwasanaeth trylwyr ac urddasol. Diolch i bawb.



Llongyfarchiadau i Emma Chappell, Tai Caradog ar dderbyn y wisg wen yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Enillodd Emma yr anrhydedd ar ôl iddi ennill cystadlueaeth Dysgwr y Flwyddyn yn 2017.

Grwp Dyfodol Deiniolen Yn Dod i Ben

Mae criw o wirfoddolwyr wedi bod yn ceisio sefydlu neuadd gymunedol er defnydd trigolion lleol yn Deiniolen ers 2013. Mae cyfarfodydd lu, oriau maith o drafod ac edrych ar amrywiol opsiynau wedi digwydd dros y pum mlynedd diwethaf. Ond yn anffodus 'rydym wedi dod i'r casgliad na fydd modd i

ni wireddu ein breuddwyd a bydd grwp Dyfodol Deiniolen yn dod i ben. Er ein siomedigaeth rydym yn hapus ein bod wedi ceisio ein gorau glas, wedi gweithio'n galed ac wedi edrych ar bob opsiwn posib.

Llwyddwyd i sicrhau grant, blwyddyn neu ddwy yn ôl, i gynnal astudiaeth opsiynau a fu'n cysidro gwahanol safleoedd o fewn y pentref. Casgliad yr astudiaeth oedd mai y lleoliad mwyaf addas fyddai

Capel Ebeneser; ac aethpwyd ati i greu dyluniadau pensaernïol cyffrous. Cafwyd trafodaethau niferus gydag aelodau Capel Ebeneser a thim cyfreithiol Undeb yr Annibynwyr

ynglŷn a dulliau posib o gydweithio; ond yn anffodus nid oedd modd sicrhau partneriaeth am amrywiol resymau. Bellach 'rydym ar ddeall y bydd safle Capel Ebeneser yn cael ei werthu mewn arwerthiant ym mis Hydref. Buasai Grwp Dyfodol Deiniolen wedi bod wrth eu boddau gallu prynu'r safle; ond gan ei fod yn cael ei werthu mewn ocsiwn nid oes modd i ni ymgeisio am grant i'w brynu.

Yn ystod y misoedd diwethaf bu i ni gynnal cyfarfodydd cyhoeddus sydd wedi sbarduno llawer o waith da yn y pentref gyda sefydlu cynllun Neighbourhood Watch er enghraifft. Prosiectau eraill sy'n mynd rhagddynt yw ceisio cynnal y clwb ieuenctid, harddu'r pentref, parc sglefrfyrdio a hamdden ayyb.

Gobeithio y bydd modd i'r gwaith da yma barhau yn y pentref dan arweiniad yr amrywiol grwpiau tasg sydd wedi eu sefydlu ac sydd wedi bod yn weithgar iawn eisoes.

Dros y pum mlynedd mae Grwp Dyfodol Deiniolen wedi casglu rhywfaint o arian. Mae'r cyfran helaethaf o hwnnw bellach wedi ei ddychwelyd i Griw Bingo Deiniolen, ond mae oddeutu £2,000 yn weddill yn ein cyfrif banc. Rydym wedi penderfynu gwahodd ceisiadau am nawdd gan fudiadau lleol fel modd o sicrhau buddsoddiad lleol o'r arian sy'n weddill. Gwahoddir mudiadau lleol i gwblhau'r ffurflen gais erbyn 30 Medi 2018.

Hoffai aelodau Grwp Dyfodol Deiniolen ddiolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r

trafodaethau ac wedi ein cynghori ar hyd y daith. Gobeithio bydd perchennog newydd Capel Ebeneser yn ei ddiogelu gan ei fod yn rhan mor bwysig o hanes ein pentref.

Diolch yn fawr iawn am bob cefnogaeth.

Aelodau Grwp Dyfodol Deiniolen, Gorffennaf 2018

Ysgol Gwaun Gynfi : Gweithgareddau diwedd tymor

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Llwyddiant ysgubol i ddisgyblion yr ysgol eleni. Llongyfarchiadau mawr i Erin Wyn, 1af ar yr unawd Alaw Werin an 12 oed.

Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn i Lowri Hughes am ei gwaith caled o hyfforddi'r Ymgom a ddaeth hefyd yn 1af.

Gwaith Celf a Chrefft yr Urdd.

Llongyfarchiadau mawr i barti Alys - 3ydd gyda Chreu arteffact (Bl5 a 6)

Ymwelwyr

Braf oedd croesawu Malcom Allen yn ôl i'r ysgol i sgwrsio am ei yrfa gyda holl ddisgyblion yr ysgol.

Dathlu diwedd ein prosiect Arweiniol Creadigol

Prosiect arall hynod o lwyddiannus, gyda'r artistiaid Gwion Jones a Mike Murray.

Cawsom ddathliad llewyrchus iawn, gyda neuadd lawn o rieni yn mwynhau gwrando ar y disgyblion yn trafod eu gwaith a gwyllo ffilm arbennig yn dangos ymchwiliadau Gwyddonol.

Tripiau Haf

Bl 3, 4 a 5 i Gwm Idwal; Bl 6 – Llwybrau Llechi, Bethesda; Dosbarthiadau Meithrin, Derbyn a Blynnyddoedd 1 a 2 – Fferm Foel.

Twrnament pêl droed

Llongyfarchiadau mawr i'r tîm fuodd yn cystadlu mewn twrnament lleol yn ddiweddar.

Cyngor Ysgol

Bu'r cyngor ysgol yn weithgar iawn drwy'r tymor yn casglu syniadau'r plant. Erbyn hyn drwy gyngor y lleisiau bach, penderfynwyd ar gael hwdis i ddisgyblion Bl6 ac ar gyfer gwersi ymarfer corff.

Clwb Cinio'r Meithrin

Yn ystod y flwyddyn mae'r plant meithrin wedi bod yn cael cinio ysgol. Erbyn hyn mae'r rhan fwyaf yn aros dros ginio ac yn mwynhau'r cinio'n fawr.

Mabolgampau

Diwrnod braf a phawb wedi mwynhau, yn enwedig yr hufen ia ar y diwedd.

Beicio i'r ysgol

Llawer o'r disgyblion yn mwynhau dod ar feic neu sgwter i'r ysgol.

Diwrnod cenedlaethol dod a chi i'r gwaith.

Dosbarth Mrs Jones wedi gwirioni ar ymweliad ci bach newydd Mrs Gwilym



TUDALEN YR

IFANC

Wedi dod i amlygrwydd drwy greu celf i gloriau cerddoriaeth y bandiau ifanc lleol Alffa a Gwilym, a chael sylw ar gyfrwng digidol S4C, Hansh, dyma ychydig am y ffotographydd Rhys Grail:

RHYS GRAIL

Dywed ychydig am dy hun:

Fy enw i yw Rhys Grail, dwi'n 19 oed a dwi dod o ardal Bethel. Dwi'n gyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail a dwi wrthi'n astudio fforograffiaeth yn Birmingham City University ar y funud.

Pryd wnes di ddechrau tynnu lluniau a pham?

Wedi tyfu fyny gyda diddoedeb mawr mewn celf o'n i'n dueddol o fod yn eithaf creadigol mewn llawer o bethau gwahanol. Nes i gychwyn tynnu llunia gyda fy iPhone, (ryw basic landscape shot), a o'n i wedyn yn dueddol o roi y llunia i fewn i fy sketchbook gwersi celf. Ers tynnu llunia yn Llanberis dwi'n teimlo fel bod fy ngwaith celf wedi datblygu eitha tipyn.

Disgrifia dy waith celf:

Ar y funud fyswn i yn disgrifio fy ngwaith celf fel 'obscure', weird a eitha 'cool' i edrych arno. Dwi'n dueddol o greu be bynnag sy'n teimlo'n naturiol i mi, a dwi'n teimlo fel mai hyn ydy'r ffordd ora' i gael yr effaith 'weird' dwi'n cael ar fy llunia'.

Ydy ardal Dyffryn Peris wedi dylanwadu ar dy gelf mewn rhyw ffordd?

Yn sicr, yn fy ngwaith ffotograffiaeth buan oedd yr ardal Dyffryn Peris yn cael effaith mawr ar fy ngwaith, drwy fod yr ardal mor agos i mi. Oedd yr ardal fel ryw 'source' bach o ysbrydoliaeth. Ond wrth i mi symyd i'r ddinas mae cael gweld yr amgylchedd gwahanol a hefyd cael gweld amrwyaeth gwahanol o gelf wedi datblygu sut dwi'n gweithio heddiw.

Lle gallwn ddarganfod dy waith?

Dwi'n rhannu fy ngwaith yn eithaf cyson ar y safle cymdeithasol 'Instagram'. Dwi'n rhannu fy ngwaith dan yr enw '@HolyRhys'.

Unrhyw tips i bobl ifanc eraill sydd eisiau tynnu lluniau?

Fel tips i bobl ifanc fyswn i'n dweud:

1. Gwnewch be bynnag fath o gelf rydych eisiau. Dwi'n dueddol o wneud gwaith dwi'n meddwl sy'n edych y 'cool', seems to be working out!
2. Peidiwch a gadael ddim byd i'r funud olaf. Dydy hyny ddim yn 'cool'.
3. Peidiwch a phoeni am bobl sy'n dweud bod celf yn 'ded-end subject'. Mae'r sîn celf bob tro'n tyfu.



Enwebu am Wobr Siop Cigydd y Flwyddyn



Mae Siop Cigydd Wavells, Llanrug wedi ei dewis gan banel o feirniaid fel un o dair siop drwy Gymru gyfan i gystadlu am wobwr Siop Cigydd y Flwyddyn. Y ddwy arall o Gymru yw Edwards o Gonwy a Rogers a'i Feibion, Caerfyrddin. Bydd angen disgwyl tan y pumed o Dachwedd i gael gwybod y canlyniad, a hynny yn Neuadd Sirol Westminster yn Llundain. Bryd hynny dyfernir y brif wobwr yng Nghymru a'r brif wobwr yng ngwahanol ranbarthau Lloegr, a chawn wybod pwy fydd Siop Cigydd Orau'r Flwyddyn. Yn ôl Bryn Williams, roedd cryn dipyn o 'waith papur' i'w gwblhau er mwyn cystadlu. Golygai roi amlinelliad o hanes y siop a sut y bu iddi ddatblygu; paratoi cynllun busnes manwl, a gosod allan y dyheadau a'r bwriad am ddyfodol y siop.

Mae'r siop wedi profi cryn lwyddiant ers ei sefydlu gan y diweddar Wavell Roberts, a enillodd bencampwriaethau selsig sawl gwaith, cyn i Bryn Williams barhau â'r busnes, ac ennill sawl gwobr ei hun. Y tro hwn, nid cynnyrch unigol fydd yn cael ei feirniadu, ond y siop gyfan. Mae'n gyrchfan boblogaidd gan gwsmeriaid rheolaidd o Lanrug, yr ardal o amgylch ac o gryn bellter; a'r caffn yn ganolbwynt hwylus i gyfarfod am sgwrs, paned a chacen.

Mae hefyd yn un o'r ychydig fusnesau sydd wedi hysbysebu'n yr "Eco" o'r cychwyn cyntaf, a dymunwn bob llwyddiant i Bryn a'r staff yn Llundain.

CYNLLUN EFE



Dros yr haf, penodwyd Mrs Susan Williams, Ceunant, Llanrug yn weithiwr newydd Cynllun Efe. Yn ei swydd newydd, bydd Susan, fel ei rhagflaenydd Catrin

Hampton, yn gwasanaethu eglwys Caersalem, Caernarfon a Scripture Union Cymru hefyd gan barhau'r bartneriaeth a gychwynnwyd flwyddyn yn ôl.

Wrth groesawu Susan i'r swydd mae Ymddiriedolwyr Cynllun Efe hefyd yn diolch i Catrin am y gwaith ardderchog a wnaeth yn ystod y flwyddyn y bu hi gyda ni. Cafwyd canmoliaeth a gwerthfawrogiad o'i gwaith yn yr eglwysi a'r ysgolion y bu hi'n ymweld â nhw ar hyd y flwyddyn. Yr oeddem wedi gobeithio cael ei chwmmi a'i gwasanaeth am ragor o amser gan ein bod wedi ei phenodi i swydd dair blynedd. Ond er mor siomedig ydym o'i gweld yn symud i Sir Gaerfyrddin, yr ydym yn gwerthfawrogi'r cyfle annisgwyl a ddaeth iddi hi a'i gŵr Corey gael gwasanaethu gyda'i gilydd mewn swyddi newydd yno. Dymunwn bob bendith a llawenydd i'r ddau ohonynt yn eu cartref a'u gwaith newydd.

Mae Susan wedi cychwyn ei swydd newydd ers dechrau Medi. Nid yw'r gwaith yn newydd nac yn ddiethr gan iddi fod yng nghanol gwaith Cynllun Efe o'r cychwyn. Dros rai misoedd y llynedd, wedi ymadawiad ein gweithiwr cyntaf Andrew Settatee a chyn penodiad Catrin, bu Susan yn parhau gwaith Efe yn yr ysgolion lleol. A thros y flwyddyn ddiwethaf hefyd daliodd i ymweld ag amryw o'r ysgolion gyda Catrin. Mae'n edrych ymlaen yn fawr at gael parhau'r gwaith hwn.

Nid yn unig y mae Susan yn gyfarwydd â'r gwaith, y mae hi hefyd yn wyneb cyfarwydd i ysgolion ac i lawer o eglwysi dalgylch Cynllun Efe gan ei bod wedi arfer â chynnal gwasanaethau ac arwain gwahanol gyfarfodydd yn eu plith ers blyneddau. Dymunwn bob bendith iddi yn y gwaith, ac edrychwn ymlaen at gydweithio â hi.

HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN
O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol-
07940023159
Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
Eboest- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN
CIGYDDION
Y FRO
YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

Premier
Y Stofa Premier Llanrug
Sgwar Llanrug
01286-673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

LLANBERIS

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740



Cais am Newyddion Pe baech chwi, fel unigolyn/ Cymdeithas/ criw neu enwad, yn hoffi cynnwys unrhyw eitem o Newyddion sy'n berthnasol i'r pentref, yn yr Eco, gyrrwch ef i mi drwy alwad ffôn, llythyr neu ebost.

Pen-blwydd Arbennig Dymuna Mrs Eunice Roberts, Maes Padarn, ddiolch o gallon i w theulu, ffrindiau a phawb a anfonodd gardiau, anrhegion, negeseuon ac a fu'n ymweld â hi ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed.

Diolchiadau Dymuna Gwynfor a theulu'r ddiweddar Margaret Eileen Jones (BENS) ddiolch am yr holl gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn dilyn marwolaeth Margaret ar Orffennaf 21ain. Bydd yr arian a dderbyniwyd, sef £400, yn mynd i'r St David's Hospice, Llandudno.

Gwasanaethau Capel Coch

9fed: 10yb a 5yh Y Gweinidog
16eg: 10yb Y Parchedig Eifion Wyn Williams
23ain: 10.30yb Oedfa Deulu
30ain: 10yb Mr Dewi Jones
Hydref
7fed: 10yb Y Parchedig Cath Williams; 5yh Parti Bythol Wyrdd
14eg: 10yb a 5yh Y Gweinidog
21ain: 10yb Y Parchedig Huw Pritchard
28ain: 10.30yb Oedfa Deulu
Tachwedd
4ydd: Mrs Nerys Griffith
11eg: 10yb a 5yh Y Gweinidog
18fed: 10yb Mr Dafydd Iwan
25ain: 10.30 Oedfa Deulu



Y mae hi'n fore odiaeth o braf, 14eg mis Gorffennaf 2018, fel yr ysgrifennaf hyn o golofn, a'r ddaear ddeutu mor galed â hen ffosil. Ys gwn i pa effaith gaiff y tywydd eithriadol o boeth, a hynny maes o law, ar bysgod, creaduriaid, planhigion, ac a welir ffyngau fel bwyd y boda /barcud, caws llyffant, grawn un-nos, madarch/madalch, yn tyfu? Mi gewch chwi fel finnau weld hynny pan ddigwydd! Ewch i'r coedlannau a'r meysydd. Sylwch! Mwynhewch! Rhyfeddwch!

Mi rydw i, os ga i, am aros rhyw chydig ym myd y ffyngoedd, gan geisio ennyn eich sylw, os nad eich diddordeb, at rai o'r stampiau post a berthyn i wahanol wledydd.

Rwmania fel gwlad, welwch chwi, fu'n gyfrifol am gynhyrchu set gyflawn o stampiau post sy'n portreadu madarch, a hynny am y tro cyntaf rhwng 12fed a'r 15fed o fis Gorffennaf y flwyddyn 1958. Nid yw hynny, coeliwch chi fi, ond chwe deg mlynedd yn ôl, Yn nechrau mis Hydref y flwyddyn 1958, cyhoeddodd

Gwobr am yr ail flwyddyn yn olynol



Mae salon trin gwallt a harddwch TW yn Llanberis wedi ennill gwobr Pum Seren gyda chwmni Phorest am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae'r cwmni yn rheoli sustemau apwyntiadau, ac yn gwobrwyo busnesau sydd wedi cael adroddiadau 4 seren yn rheolaidd am ddeuddeng mis.

Mae Wayne a'i staff yn TW yn falch iawn o dderbyn y wobwr eto eleni, sy'n dangos fod safon gwasanaeth cwsmeriaid yn uchel ac yn parhau'n uchel gydol y flwyddyn. Meddai, "Hoffai pawb yn y salon ddiolch i'r holl gwsmeriaid sydd wedi ein cefnogi ar hyd y blynyddoedd a galluogi i'r busnes gynyddu. Bydd amrywiaeth o ddathliadau yn ystod y flwyddyn nesaf oherwydd byddwn yn dathlu 10 mlwydd oed TW yn Llanberis."

Pigion Byd Natur

Sylwch da Chwi! Mwynhewch! Rhyfeddwch!



Tsiecsoflocia stampiau byd y ffyngoedd. Erbyn dechrau mis Mai y flwyddyn ddilynol mi roedd gwlad Pwyl hithau wedi cyhoeddi rhai stampiau yn ymwneud â ffyngoedd a dyfai yno.

Yn ddiddorol iawn, yng ngwlad Siapan, hynny'n y flwyddyn 1948, cyhoeddwyd stamp post sydd, am wn i, braidd yn anarferol, ac un debygaf a ddeil rithyn o gysgod, ran ei gyswllt, efo ffyngoedd; hyn i gyd er na welid unrhyw ffwng ar ei gyfer!

Cyhoeddwyd y stamp nodedig hwn i ddathlu Degfed Dathliad Monopoli Alcohol Llywodraeth Siapan, ac yn amlwg ar y stampiau cynhwyswyd adeiladau ar ffurf tyrau, nad ydynt mewn gwirionedd ond rhannau annatod o'r prosesau distyllu. Oddi tanynt, cynhwyswyd y symbolau cemegol C2H5OH, sef yr union fformiwla am ethanol, a gynhyrchir drwy ddefnyddio burum, a hynny yn y broses o eplesu.

Ie, ni ellir gwadu, tyfu o nerth i nerth a wnaeth y stampiau post sy'n darlunio ffyngoedd, a bellach amcangyfrifir bod mwy na phum mil, os nad rhagor, ohonynt yn bodoli. Pwy a fuasai'n meddwl ynte? Bwyd y boda wedi cynyddu! Ie'n sicr ym myd y stampiau post!

**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833**

Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol

24 Awr y Dydd

Capel Gorffwys Preifat

Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)



Mae'n debyg na'r peth goreu eleni yw anghofio'n llwyr am bysgota'r afonydd, ond troi mwy at y llynnoedd. Mae tipyn o hwyl wedi bod ar Padarn, Nantlle a Dywarchen, mae Cwellyn wedi rhoi rhyw ychydig o sbort pan mae wedi bod yn bosib cael y cychod allan. Mae wedi bod yn tipyn o benbleth ar be sy'n mynd ymlaen yn y fan yma, gan fod Dŵr Cymru yn eithriadol o brysur yn rhdeg lorïau mawr led led y sir o'r gwaith dŵr ym Metws Garmon. Buaswn yn meddwl 'na cario dŵr at leddfu effaith y sychdwr mawr yw'r rheswm, ond na medd rhai or cwmni – cario dŵr i Fetws Garmon mae nhw? I be, dwn i ddim, ond fel y profwyd gyda beth oedd yn mynd ymlaen gyda problemau Llyn Padarn rhaid cymryd llond llwy fwrdd o siwgrwr hefo popeth sy'n dod allan o'r cwmni yma. Ond wrth gwrs un ffordd neu gilydd, tydi hyn o ddim cymorth i lefelau Cwellyn.

Er fod yn Eco wedi cael mis o wyliau mae'r byd pysgodfaol yn dal i symud ymlaen, a mae'n anodd dal cyd bwysedd ar be sy'n mynd ymlaen ym myd y rhai sy'n llywodreathu. Mae nifer o faterion dan ystyriaeth a fuasai'n cael effaith pell gyrhaeddol ar y byd pysgota, un wrth gwrs yw'r cynnig i ddod a rheolau llym i atal pob math o bysgota, nid yn unig yn un dadleuol i wahardd pawb rhag cadw rhyw eog y tymor at yr hen badell 'na. Mae'r mater yma yn dal dan ystyriaeth a penderfyniad wedi ei ohirio hyd rhyw bryd yn ystod 2019. Mae cynrychiolwyr y byd 'sgota wedi bod yn ceisio cael cyfarfod ar gweinidog Lesely Griffiths er mwyn iddi gael ein ochr ni or achos, ond hyd yn hyn mae popeth yn disgyn ar glust fyddar. Ond efallai y daw rhyw synnwyr allan o hyn i gyd gan fod gryn feirniadaeth o'r corff Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyffredinol. Yn yr wythnosau diwethaf fe welwyd cadeirydd y corff Diane McCrae yn ymddiswyddo oherwydd y sgandal enfawr o werthu gwerth £39 miliwn o goed i un cwmni breintiol, a neb arall wedi cael y cyfle i roi tendr i mewn. Dyma dywedodd AC Llafur Lee Waters 'Mae'n ymddangos fod prif gwango amgylcheddol Cymru allan o reolaeth' Felly mae'n amlwg ei bod yn amser iddynt fel aelodau sortio'r holl botas allan. Efallai fod hyn rhywbeth i wneud a phenderfyniad pwyllgor deisebau'r llywodraeth pan yn trafod ein deiseb yn erbyn y rheolau uchod.

Ein penderfyniad oedd fod bwrdd CNC ddim wedi delio a'r mater gyda thegwch a fod prif syddogion pysgodfeydd y corff i cael eu galw o flaen y pwyllgor i egluro eu dull o weithredu ar ei cynigion a allai ddinistrio pysgota am yr eog yng Nghymru.

Tipyn mwy o newyddion positif. Fel y gwyddoch mae'r llywodraeth wedi bod yn cnoi ar ymgynghoriad arall, sef y cynnig i agor holl ddyfroedd Cymru at pob math o ddefnydd a chwaraeon dŵr. Wel dyna lanastr fuasai huna yn 'de. Ond diolch i'r drefn mae synnwyr cyffredin wedi goresgyn unwaith eto - gyda'r cynnig yn cael ei wrthod, gyda'r awgrym 'rydym wedi bod yn gefnogi ers degawdau -Fod mynediad i fod gyda chytunbeb drwy drafodaeth gyda'r perchenogion' Wyddoch chi be – mae'r gymdeithas wedi bod yn awgrymu ac yn ceisio gweithio ar hyn er 1986. A mae rhai fel Cyngor Chwaraeon Cymru a cynrychiolwyr y bobol canws 'ma wedi bod yn mynnu fod ddim eisiau caniatad i ddefnyddio'r eiddo o gwbl. Fe wrthodwyd cais y clwb am ganolfan bysgota a canwio yng Nghrawia ar awgrym y cyngor chwaraeon, dim galw am adnodd o'r fath yn y fro medda nhw. Be goblyn sy'n mynd ymlaen ym Mhlas Menai tybed? Rhaid cofio wrth gwrs fod y Cyngor Chwaraeon ar un adeg wedi bod yn hynod o gefnogol i ni fel clybiau pysgota, ni fuasai wedi bod yn bosib prynnu llawer o'n dyfroedd heb eu cymorth hael. Ond yn rhywle ar y ffordd maent wedi colli cyfeiriad a wedi cael ei dylwanadu ar pob lefel gan y criwiau canwio 'ma. A wyddoch chi be, rhyw griwiau o dros y ffin yw'r rhan fwyaf o rhain.

Ond cysidwrch faint o bleser a chyfleon mae trigolion y fro wedi ei golli drwy styfnigrwydd cyrrff sydd yn y pen draw yn ymatebol i neb. Felly marciau llawn i Lywodraeth Cymru y tro yma. Da iawn chi.

Yn anffodus mae ymdrin a materion gweinyddol 'ma yn mynd mynd a llawer iawn o fy amser, a dwi 'di gwneud addewid y byddaf yn gwneud llawer llai o hyn a llawer mwy ar be 'rwyn hoffi fwyaf, sef pysgota o gwmpas yr hen le 'ma a chael rhyw beint a sgwrs bach yma ag acw. Gan wrth gwrs tydi'r hen gloc na'i feister amser yn aros am neb. A felly y bu hi ar ddiwedd Mehefin, galwais draw i'r Ddeorfa yn Crawia a pwy oedd yno ond William Arthur, Cefn, Bethel. Mae William yn un eithriadaol o ddiddorol a mae ei wybodaeth am hanesion a ymarferion y fro, yn enwedig Nant Peris yn arbenig. Mae ganddo fyrdd o atgofion ar ddulliau pysgota dros y blynyddoedd yn y Nant, mae'n rhaid imi gael sgwrs eto a fo i'w rhoi ar gof.

Dyma ddywedod - "Ti di bod yn sgota chwilen redyn 'leni, mae'n nhw wedi bod yn frith yn Nant flwyddn 'ma" Wel dyna fynd a mi yn ol flynyddoedd, i 1971 a dweud y gwir. Yr adeg hynny 'roeddwn y byw ym Metws y Coed a daeth John Evans a'i wraig Megan i fyw drws nesaf inni. 'Roedd John yn bysgotwr brwd ar yr hen ddulliau a drwyddo fo y cefais wybod a profi 'sgota'r chwilen 'redyn.

Pryfyn bach brown yw sydd ar ei anterth ar ddechrau Mai yw'r chwilen, neu chwilen glec i rai. Mae ar gael fel mae dail y rhedyn yn agor. Mae'n rhaid mynd i chwilo amdanynt ar fore cynnes, maen't i'w darganfod o dan y ddeilen. Ei rhoi mewn bocs bach a ffwrdd a ni. Gêr fain, bachyn 16 neu 14 a lein rhyw dri pwys. Gosod y bach rhwng adenydd y pryfun a'i ollwng yn ofalus i'r rhediad i mewn i'r pwll. Mi fyddai'r brithyll yn ei lyncu mewn chwinciad. 'Roedd yn donic clwyed fod y pryfun bach yma yn niferus iawn eleni, gan tydwi heb ei weld ers blynyddoedd lawer. 'Roedd rhai o'r hen griw, rhai oedd yn 'sgota'r chwilen, corbat a'r pry du yn dweud fod pethau wedi dirywio yn ofnadwy ym myd y pryfetach yn dilyn trychineb Chernobyl. Mae'n rhaid fod peth gwirionedd yn hyn gan fod defaid wedi bod yn cael eu sganio ym Nyffryn Mymbyr tan yn ddiweddar iawn, os nad yw hyn yn dal i fynd ymlaen. Wrth gwrs y peth cyntaf i gael ei effeithio mewn achos o lygredd amgylcheddol yw'r pryfetach. Gobeithio fod hyn y tu cefn inni 'nawr – Diolch yn fawr iti William am agor cil ddôr i fy hen atgofion.

Tra bod y drws yn gil agored, dyma ddull arall o 'sgota a ddaeth im ffordd drwy John Evans, sef sgota crethill neu minnow bach. Cefais filoedd o hwyl drwy 'sgota'r creadur bach yma yn y pylloedd dwfn is law Rhaeadr Conwy a hefyd Rhaeadr Ewynnol ym Metws Y Coed. 'Rwyn cofio un tro wedi cael helfa go fras ger Pont y Mwynwyr ar yr Afon Llugwy. Yr amser hynny 'roedd John a minnau yn mynychu Capel Brynmawr yn y Betws. Un o'r blaenoriad oedd John Lloyd o Bentre Du. Gweithio i'r Swyddfa Bost oedd John, gŵr annwyl a charedig dros ben ac yn byw yn eithriadol o agos iw le. Penderfynwyd mynd a'r pysgod i John Lloyd a'i chwaer, dyma John Evans yn dweud mwyaf sydyn "Cer i nôl pump torth, hefo'r brithyll yma – a mi waniff yr hen John fwydo'r holl bentref wedyn" da de – ni fyddai yn clywed dim byd gwreiddiol fel yna heddiw.

Mae llawer o gymdeithasau a sefydliadau Cymru yn dioddef drwy ddiffyg ricriwtio digon or genhedlaeth ifanc i gymryd diddorbed mewn rhedeg y pethau. Tydi pysgota ddim gwahanol, ond fel cyfeirias yn rhifyn Gorffennaf mae'r Counrtyside Alliance wedi cydio ynddi gyda ei gynllun 'Pysgota i ysgolion. Rhedeg y cynllun ar ran yr Alliance mae Charles Jardine a Julian Lewis Jones (rhaglenni 'sgota ar S4C) Yn y fro yma mae'r rhaglen dan reolaeth Gareth Evans Dirprwy Bennaeth Ysgol Syr Huw Owen. Ar 4ydd Gorffennaf fe gynhaliwyd y sesiwn gyntaf ar ddyfroedd yr ardal sef Llyn y Dywarchen gyda disgyblion o Ysgol Syr Huw ac Ysgol Uwchradd Caergybi. Ble oedd Brynrefail a Dyffryn Nantlle tybed, peidiwch a dweud fod dim diddordeb yno!!! Fodd bynnag fe gafwyd pedair awr bleserus ofnadwy a braf oedd gweld yr ifanc yn castio'n eithriadol o fedrus. Diolch dros ben i'n aeodau a alwodd draw i roi cymorth.

We dyna ni unwaith eto – mwy mis nesaf.

Huw Price Hughes

Un funud fach ...

GWELL NA'R DISGWYL

Yn ôl y sôn, roedd hi'n Steddfod well na'r disgwyl i bawb a fu'n amheus o steddfod ddinesig y Bae yn y brif ddinas. Aeth popeth yn hwylus ddigon; meddiannwyd adeiladau a lleoliad gwych y Bae gan y Gymraeg a'i diwylliant am wythnos gyfan; a daeth y torfeydd. Dyma'r Eisteddfod gyntaf i mi fedru cerdded iddi o'r tŷ heb orfod poeni am yr un dagfa draffig (ac oherwydd hynny y tro cyntaf hefyd i mi ddiolch fod un o'n meibion a'i wraig yn byw'r pen anghywir i'r A470!).

Cofiwch chi, mi allasai pethau fod yn wahanol iawn pe byddai glaw'r diwrnod olaf wedi dod yn gynharach. Byddai dyddiau o balmentydd gwlyb y Bae mor ddiflas ag unrhyw eisteddfod mewn cae mwdlyd. Ac wedi'r haf crasboeth, siom fawr i gannoedd o ieuenctid Maes B oedd treulio o bosibl ddwy noson wlypaf yr haf dan babell mewn cae.

Ar brydiau, diolch am hynny, gall pethau fod yn well na'r disgwyl. Ond fel y gwyddom, gall fod fel arall hefyd. Yn aml iawn, cymysgedd o siom ar yr ochr orau a siom sy'n bygwth ein llethu yw bywyd i lawer ohonom. Ond gwell neu waeth, mewn hindda neu ddrycin, gallwn bwyso ar addewid yr Arglwydd Iesu Grist i fod gyda ni bob amser. Gallwn ddiolch am y pethau a fydd yn troi o'n plaid ac yn dod â llawenydd a bodlonrwydd i ni. Ond ar ben hynny, yng nghanol siom a thywyllwch a dryswch, gallwn ddiolch am yr help a rydd yr Arglwydd i ni i wynebu ac i ddwyn y beichiau sydd mor aml yn ein blino. Nid bod hyn yn rhwydd o gwbl chwaith, gan fod siom a cholled yn medru bod mor arteithiol o boenus. Nid cynnig atebion slic i'n gofidiau a wna'r Ffydd Gristnogol. Oherwydd nid dyna a wna Duw ei hun, ond yn hytrach ein sicrhau ei fod yno i'n nerthu a'n cysuro yng nghanol popeth a wynebwn. Ni all Cristnogion, mwy na neb arall, ddeall y pethau drwg a phoenus sy'n digwydd iddyn nhw a'u hanwyliaid. Ac yn sicr, ni allant egluro pam eu bod yn digwydd. Ni allant chwaith egluro sut y mae Duw yn medru eu cynnal yng nghanol pob siom a cholled. Ond fe wyddant ei fod rywsut yn gwneud hynny ac yn eu galluogi i ddod trwy bob storm, yn aml iawn er syndod iddyn nhw eu hunain.

JOHN PRITCHARD

Newid byd

Bu Imran yn fatiwr godidog,
bu hefyd yn fowliwr ardderchog...

Cwestiwn y byd
ar hyn o bryd

Sut fydd Imran fel Prif Weinidog?

Norman Closs



North Wales
SIGNS
Gogledd Cymru

Uned Unit | A9 | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com
grid76.co.uk | 07766956673

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

menter fachwen

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk

CYFENTER CALLEIB

menter Môn

CYNIGOR GWYNEDD COUNCIL

ERDF

Ynnwylth Cymru Welsh Government

Erwydd a Chymru: Buddsoddi yn eiddoedd Cymru Ddiwydiol a Menterol Ewropiaidd

Europe & Wales: Investing in your future European Regional Development Fund

TEITHIAU CERDDED

MEDI 2018

SUL 2 MEDI 11.00yb

HANES YR IDDEWON YM MANGOR (tua 1½ milltir)

I ddatlu Diwrnodiau Ewropeaidd Diwylliant a Treftadaeth Iddewig 2018

Ar y cŵd a Dr. Nathan Abrams, Brifysgol Bangor
CYCHWYN: Maes Parcio Pwll Nofio, Bangor
Hawdd iawn.

MERCHER 5 MEDI 10.00yb

CRWYDRO YR OES HAEARN YMYLON BLAEN
CAE (4½ milltir)

RHYDDHAD - Taith i ddatlu'r bore mae cael gwared a'r plant yn ol i'r ysgol!!!!!!

CYCHWYN: EGLWYS PENISARWAUN
Cymedrol. Sgidiau Cerdded.

IAU 13 MEDI 1.30yp

HANESION BONTNEWYDD (3 milltir)

CYCHWYN: STÂD LLWYN BEUNO (AR LÔN CAEATHRO)

Eitha hawdd.

GWENER 21 MEDI 1.30yp

HANESION A LLWYBRAU YR OCAR, ST. ANNES A (3½ milltir)

CYCHWYN: GER CLWB RYGBI, Ffordd yr ORSAF, BETHESDA

Cymedrol. Cwpl o elltydd. Sgidiau Cerdded

Cysylltwch a Gareth Roberts yn Menter Fachwen ar 01286 810576 am rhagor o fanylion.

DODREFN A LLORIAU

PERKINS

FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Crynodeb o Gyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen: 4ydd Mehefin

Materion yn codi o'r cofnodion

CCG – Parcio Bro Elidir, Dinorwig a Trem Eilian, Brynrefail. Cafwyd ymateb o'r diwedd. Y wybodaeth ddiwedddara ydi gan fod Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu y lôn ym Mro Elidir, bydd rhaid i unrhyw gais fynd i Gyngor Gwynedd yn gyntaf.

Parcio Trem Eilian -Mae CCG wedi buddsoddi arian I greu llefydd parcio ar y stad yma rai blynyddoedd yn ôl, a does dim cynllun i ychwanegu mwy.

LLythyrr Diolch – Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan riant ar ran plant Lleisiau Llanbabs, yn dilyn rhodd o £150 gan Y Cyngor tuag at gostau teithio i Eisteddfod yr Urdd. Braf yw gweld llythyr mor galonogol a diolchgar ganddynt. Ni fu llwyddiant eleni, serch hynny cafodd y plant fwynhad a phrofiad arbennig yn yr Eisteddfod, yn cynrychioli Eryri.

Cychod Blodau Rhes Faenol a Rhydfadog, Deiniolen - Derbyniwyd llythyr o CCG yn dilyn gosod cychod blodau ar eu tir heb ganiatad. Mae rhestr o 7 o bwyntiau mae'r cwmni angen cytundeb iddynt. Oherwydd natur yr hyn y maent yn ei ofyn, nid oes posib i'r Cyngor Cymuned dderbyn cyfrifoldeb. Cytunodd Y Cyngorydd Sirol i siarad gyda perchnogion y stryd, a'r clerc i ysgrifennu at CCG yn datgan derbyn y llythyr.

Blwch Post Brenhinol - Derbyniwyd llythyr ynglyn a blychau postio ac amseroedd cywir y casgliadau. Penderfynwyd gyrru yn datgan ein bod yn falch o glywed a gofyn i'r Post Brenhinol rhoi arwyddion gyda'r amseroedd cywir ar y blychau postio.

Llwybr Cerrig Gwynion 73 – Derbyniwyd cadarnhad fod y goeden a oedd yn rhwystredig ar y llwybr troed, bellach wedi ei chlirio.

Gohebiaeth a materion eraill

Llwybr Carreg y Gath, Rhiwlas – Mae llwybr yma yn cael ei gau am gyfnod, er mwyn diogelu y cyhoedd gan fod gwaith angen ei wneud arno. Fodd bynnag, rydym wedi sylwi fod Cyngor Gwynedd yn torri eu polisi iaith, gan eu bod wedi gosod yr arwydd o gau'r llwybr dros dro yn y Saesneg gyntaf ar cychwyn Carreg y Gath. Mae'r arwydd yr ochor arall yn rhoi defnydd o'r Gymraeg gyntaf. Y clerc i roi cŵyn am hyn i Wynedd gan ofyn wrthynt ei newid ar unwaith.

Cyfyngiadau Parcio – Yn dilyn sawl llythyr ynglyn a parcio i'r Cyngor Sir, maent bellach yn bwriadu cyflwyno a diddymu cyfyngiadau parcio yn Bethel :

Stryd Bellaf – Dirymu Bae Parcio Anabl

Cilan – Newid Deilydd Bathodyn Anabl Yn unig presennol I Aros Cyfyngedig 30munud. Dim dychwelyd 1 awr LLun – Sad 9 - 5 Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Clwb Pel Droed, Bethel – Cais ôl weithredol i gadw 'portacabin' ar dir a maes parcio craiddgaled, ynghyd a cynllun tirlunio/sgrinio, bwriadedig a symud cabannau presennol oddi ar y tir.

Ceir Cymru Bethel – Adeiadu uned ar gyfer gwasaneuthu a glanhau cerbydau yn iard gefn y busnes

The Bull Inn – Newid defnydd o dafarndy gwag i llety gwyliau ynghyd a chreu ffenestr dormer newydd yng nghefn yr eiddo

Pant Gwyn, Fachwen – Dymchwel estyniad a chodi estyniad newydd unghyd a gosod tanc septic(cynllun diwygiedig i'r hyn ganiatwyd yn wreiddiol.

Parc Nant y Garth – Cais i rhyddhau amod rhif 2 o ganiatad cynllunio gwreiddiol.

Llys yr Onnen – Diddymu Cytundeb Cyfreithiol oedd ynghlwm a'r caniatad cynllunio.

Adroddiad Archwiliad Mewnol a Chyflwyno Ffurflen Flynyddol Darllenwyd y Cyfrifon a ardystiwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol ar 14/5/18, a darllenwyd sylwadau'r Archwilydd Mewnol ar y Datganiadau Cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn Ariannol 2017-18. Cytunwyd gyda'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer Cyngor Cymuned Llanddeiniolen am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/18 i sylw'r Archwilydd Allanol.

Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith trylwyr yn ymdrin a materion archwiliadau yn gofalu fod y dogfennau perthnasol yn cael eu cyflwyno fel tystiolaeth, ac am esbonio ac adrodd yn ôl ar yr archwiliad mewnol.

Ceisiadu Nawdd Ariannol – Bob blwyddyn, byddwn yn rhoi hysbyseb yn y papurau Bro ac ar ein gwefan. Eleni, mae'r Cyngor wedi penderfynnu derbyn ceisiadau ar trwy gais ar ffurflen. Bydd ffurflenni ar gael gan y clerc, neu i'w lawrlwytho ar gwefan Cyngor Llanddeiniolen. Bydd angen atodi Mantolen Ariannol neu gopi o cyfrifon diweddaraf wedi eu ardystio I gyrraedd y clerc dim hwyrach na Medi 30ain

O gwmpas y Bwrdd

Cysgodfan Bws Rhiwlas – Angen cysylltu eto gyda Dafydd gan nad yw'r gwaith byth wedi ei wneud.

Cae Hywel – Y clerc i gysylltu yn gofyn am ddiweddariad.

Penisarwaun – Clytiau budr yn cael eu gadael yn y cysgodfan bws.

Diolch i gymydog sy'n byw yn agos am eu clirio.

Deiniolen – Diolchwyd i bawb a fu mor barod i fynd ar y daith o gwmpas yn codi sbwriel yn ddiweddar. Mae'r ardal yn edrych tipyn taclusach erbyn hyn.

Brynrefail – Mae cwynion am swm miwsig uchel oriau man y bore yn dod o'r parc carafanau tu ôl i Fricsan. Cysylltu a Cyngor.

A4244 – Lon Brynrefail. Mae 3 damwain wedi digwydd yn ystod wythnos hanner tymor mis Mai ar y lôn yma. Mae deiseb dda wedi ei llenwi, ac mae Martin yn hyderus ei fod yn casglu digon o ffeithiau i brofi fod y sefyllfa wedi newid yn helaeth ar y ffordd yma.

CCG – Dywedwyd fod y cwmni wedi gyrru llythyr allan i denantiaid gyda rhestr o gostau am wahanol wasaneuthau. Bydd mwy o wybodaeth yn y cyfarfod nesaf.

Lôn Perthi – Cyflwr y lôn yn warthus. Mae'r Cyngor Sir wedi gaddo clytio y lôn eleni. Llythyr i'r adran briffyrdd yn gofyn os oes dyddiad wedi ei bennu ar gyfer y gwaith.

Tai Bryntirion – Gwylanod yn nythu ar ben y tai ar y stâd, yn enwedig ar ben 1 tŷ yn top y stâd. Cysylltu a Cyngor Gwynedd.

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



DIONI

<http://dioni.co.uk>
tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar y 19ed o Fehefin 2018

Clwb Ieuentid

Croesawyd Nia Vaughan Morris, Rheolwr Gwasanaethau Ieuentid Cyngor Gwynedd a Sion Bryn Jones i'r cyfarfod i egluro sefyllfa bresennol Clybiau Ieuentid yn gyffredinol a'r effaith ar Llanrug. Cafodd yr aelodau gyfle i gwestiynu'r swyddogion am y broses a'r gwahanol oblygiadau.

Yn dilyn y cyflwyniad fe ystyriwyd sawl opsiwn a penderfynwyd i brynu i fewn i'r model newydd gan Gyngor Gwynedd am un noson yr wythnos ar hyn o bryd ac awdurdodi'r Clerc i wneud y trefniadau angenrheidiol gyda Chyngor Gwynedd.

Tacluso Pentrefi

Penderfynwyd cynnal diwrnod casglu ysbwriel ar 7fed o Orffennaf 2018 rhwng 10:00 ac 13:00 gyda phawb i ymgynnull yn y Sefydliad Coffa, Llanrug.

Adroddwyd fod y Cyngor wedi rhoi cais i mewn yng nghystadleuaeth pentrefi taclus Sir Gaernarfon a bod cais i dorri gwair ger mynediad i'r ystadau wedi ei wneud i'r torrwr gwair.

Pwyllgor y Fynwent

Adroddwyd fod y pwyllgor yn awgrymu:

- Fod angen cynllunio ar gyfer y dyfodol gan fod y fynwent yn llenwi.
- Fod angen cario allan asesiad risg ar y fynwent yn gyffredinol ac hefyd ar y cerrig beddi.
- Fod y llwybrau oddi fewn i'r fynwent yn anwastad sy'n ei gwneud yn anodd i wthio troli ar ei hyd mewn angladd.
- Adroddwyd fod cais wedi dod i law gan deulu i gael caniatâd i roi mainc yn y fynwent er cof.

Cytunwyd gyda'r awgrymiadau ac i weithredu.

Rheolau Sefydlog y Cyngor

Penderfynwyd derbyn a mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog.

Cod Ymddygiad y Cyngor

Penderfynwyd derbyn a mabwysiadu'r cod ymddygiad.

Adroddiad y Cynghorydd Berwyn Parry Jones

Cynllunio

Mae Ymgynghoriad cyhoeddus o Bolisi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn cymryd lle ar y funud. Mae'n debyg y bydd Cyngor Cymuned eisiau ymateb ynglyn a'i rôl parthed Cynllunio yn y dyfodol.

Cwmni Hamdden

Mae pethau wedi symud ymlaen i sefydlu'r Cwmni newydd, gyda'r gobaith y bydd yn rhedeg tua diwedd y flwyddyn.

Cynllun Twf Gogledd Cymru

3 brif ffrwd i'r cynllun, arloesedd i symud perfformiad economi yn ei flaen, creu gwaith a chodi sgiliau a gwella cysylltiadau.

Mae pecyn o 26 o Brosiectau unigol wedi'i adnabod i gyflawni'r weledigaeth.

Llifogydd

Cadarnhawyd fod cais am grant a wnaed i Lywodraeth Cymru i wneud y gwaith yn Dol Afon wedi bod yn llwyddiannus a gobeithir fod y gwaith yn cael ei wneud yn y misoedd nesaf.

Hefyd mae pethau yn symud ymlaen ynglyn a'r llifogydd yn Stryd y Llyn gyda swyddogion y Cyngor yn trefnu cyfarfod hefo Cyfoeth Naturiol Cymru i weld beth allai ei wneud hefo'r outlet i'r afon ym mhen y stryd i'w wneud yn fwy effeithiol. Hefyd maent wedi cytuno i wneud gwaith ar Allt Goch i geisio troi peth o'r dŵr i'r afon cyn iddo redeg lawr y ffordd.

Adnewyddu y ffordd a'r palmant trwy Cwm y Glo

Cadarnhawyd fod y gwaith i gael ei wneud yn ystod gwyliu'r haf.

Adroddiad y Cynghorydd Charles Jones

Cynllunio

9 ty, Cae'r Eglwys, Llanrug.

Penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio ohirio gwneud penderfyniad ar y cais nes bod ymweliad safle wedi cymryd lle. Byddent yn ystyried diogelwch parthed yr Ysgol Gynradd a'r angen am lwybr troed i gysylltu Ffordd yr Orsaf a Ffordd Llanberis.

Hefyd, penderfynodd y pwyllgor ofyn am fwy o wybodaeth yn ymwneud a:

- (1) Chyfiawnhad pan fod y cais yn cyfeirio at 9 ty yn hytrach na 10 ty fel y'i cyfeirir ato yn y Cynllun Datblygu lleol.
- (2) Angen am 9 ty 3-llofft yn hytrach na chymysgedd o dai.
- (3) Angen ail-wampio llecynnau parcio

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio hefyd wedi ail-ymgynghori gydag Uned Strategaeth Tai y Cyngor er mwyn derbyn gwybodaeth o faint sydd ar y rhestr tai yn Llanrug a sut fath o dai dymunant fyw ynddynt.

Rhybudd preifatrwydd y Cyngor ar gyfer aelodau o'r cyhoedd Penderfynwyd cymeradwyo'r Rhybudd Preifatrwydd ar gyfer aelodau o'r cyhoedd a'i roi ar ein gwefan.

Rhybudd preifatrwydd y Cyngor ar gyfer staff ac aelodau'r Cyngor.

Penderfynwyd cymeradwyo'r Rhybudd Preifatrwydd ar gyfer staff ac aelodau'r cyngor a'i roi ar ein gwefan

Archwiliad Data

Penderfynwyd cymeradwyo'r Archwiliad Data a'i gyhoeddi ar ein gwefan

Ceisiadau Cynlluno

'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol:

- 1..Rhyddhau amod parthed cyflwyno tystiolaeth o risgiau llygredd tir - Plot 1, 6 a 8 - Tai Hafod Garage, Llanrug.
- 2..Codi estyniad i uned preswyl yn cynnwys ystafell aml-bwrpas ac ystafell wydr - Arete Outdoor Centre, Bryn Yr Eryr, Llanrug
- 3..Estyniad cefn - 3 Bryn Coch Terrace, Llanrug.


Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**

3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE
LLANBERIS


FFON- (01286) 870202

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS



www.fframia.com

FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar y 17ed o Orffennaf 2018

Cynllunio

Adroddwyd fod y cais cynllunio ar gyfer 9 tŷ ar dir dros y ffordd i'r Ysgol Gynradd wedi ei dynnu yn ôl.

Tacluso'r Gymuned

Adroddwyd fod diwrnod casglu ysbwriel wedi cymryd lle a'i fod wedi bod yn llwyddiannus gyda nifer o aelodau'r Cyngor wedi troi allan ynghyd a rhai o'r pentrefwyr gan gynnwys nifer o blant. Diolchwyd i bawb am droi fyny i'r diwrnod ac i Gareth Jones am drefnu i ddidoli'r ysbwriel ac i'w gludo i safle ail-gylchu Cibyn. Diolchir hefyd i berson a roddodd swm o arian i dalu am hufen ia i'r plant a fu'n helpu. Adroddwyd am ddigwyddiad anffodus gydag un aelod o'r cyhoedd ac fe benderfynwyd i ysgrifennu ato yn datgan siom am ei ymddygiad.

Nodwyd bydd dyddiau eraill tebyg yn cael eu cynnal yn y dyfodol. Y Fynwent.

Adroddwyd fod tri pris wedi eu derbyn ar gyfer ail-wynebu'r llwybrau yn y fynwent a fydd yn cael ei drafod yn fuan gan y Pwyllgor Cyllid.

Roedd cais wedi ei dderbyn gan deulu i osod mainc yn y fynwent a bydd aelodau o'r Cyngor Cymuned yn eu cyfarfod i benderfynu ar y lleoliad.

Adroddwyd ymhellach fod angen clirio chwyn ar y llwybrau a fod angen pris am y gwaith.

Llwybrau cyhoeddus

Adroddwyd fod y contractwyr wedi tocio'r llwybrau cyhoeddus. Nodwyd fod diffyg biniau baw cŵn ar gael yn enwedig ar y llwybr beicio/cerdded ger y ffordd o Lanrug i Gwm-y-glo. Penderfynwyd cysylltu a Chyngor Gwynedd i holi am finiau ychwanegol.

Meysydd chwarae

Adroddwyd fod twll yn y ffens ar gae Nant y Glyn a pendefynwyd gofyn i'n contractwr ddelio ar mater.

Ysgol Gynradd Cwmyglo

Adroddwyd fod cyfarfod o Lywodraethwyr yr Ysgol Gynradd wedi penderfynnu y byddai rhaid cau'r ysgol yn mis Medi 2019 gan mai dim ond 9 disgybl fydd yn yr ysgol o fis Medi 2018.

Adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones

Cynllunio

Erbyn hyn mae dau gwmni lleol wedi eu penodi i edrych dros y canllaw sydd i wneud a'r Iaith Gymraeg.

Cwmni Hamdden Gwynedd

Mae'r cwmni newydd yn awr wedi ei gofrestru hefo Ty'r Cwmniau a gobeithir y bydd yn weithredol yn yr Hydref.

Cynllun Twf Gogledd Cymru

Mae adroddiad wedi mynd o flaen Cyngor Gwynedd i sefydlu trefn llywodraethu'r Cynllun yn ogystal a chadarnhau y gytundeb rhwng y 6 awdurdod yn y Gogledd.

Bysiau

Mae'r trafferthion hefo gwasanaeth bwsiau Arriva yn parhau a'r swyddogion yn dal i fonitro. Mae Arriva wedi cytuno i gynnal "drop in" ar y maes yng Nghaernarfon, lle fydd cyfle i'r cyhoedd alw i "ddweud eu dweud".

Bryn Têg

Derbyniwyd nifer o gwynion am ddigwyddiadau yn ymwneud a Bryn Têg, carafanau mawr yn cael eu cludo yn achosi oedi a pheth difrod i waliau, a chwynion am sŵn adloniant a thân gwyllt yn hwyr yn y nos. Ceisir cyfarfod a'r Rheolwr y safle i drafod ymhellach.

Adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones

Damwain ger Pen Greuor, Ffordd Caernarfon

Yn dilyn damwain ddiweddar, gofynwyd i Reolwr Uned Traffig Cyngor Gwynedd ystyried gostwng y cyfyngiad cyflymder i lawr o 40 m.y.a i 30 m.y.a. rhwng Pen Greuor a Sgwâr Llanrug a'i atgoffa fod y Cyngor Cymuned wedi rhoi cais am hyn rhai misoedd yn ôl. Ei ymateb oedd na ellir cyfiawnhau newid y cyfyngiad cyflymder ar sail un ddamwain, yn enwedig mewn lleoliad lle nad oes cofnod hanesyddol o unrhyw ddamweiniau o fewn y 5 mlynedd diwethaf. Dywedodd, yn dilyn asesiad cyflymder cerbydau diweddar, mae canlyniad o 41 m.y.a. (85%tile) a 36 m.y.a. (mean) gafodd ei gofnodi a fod y cyfyngiad cyflymder presennol yn briodol i'r darn ffordd yma gan fod rhan helaeth o yrwyr yn teithio o fewn y cyfyngiad cyflymder hyn.

Ysgol Gynradd Llanrug

Yn dilyn ymddeoliad Mrs Howells, Dirprwy Bennaeth yr Ysgol, penodwyd Miss Gwenan Lockley yn Ddirprwy newydd. Roedd hi yn athrawes blwyddyn 5 a 6 yn Ysgol Deganwy ac yn aelod o'r tim rheoli. Diolchwn i Mrs Howells am ei gwasanaeth hir i'r Ysgol, a dymunwn ymddeoliad hir, iach ac hapus iawn iddi.

Bin ysbwriel/baw ci dros ffordd i'r hen Garej Hafod, Ffordd Llanberis

Diflanodd y bin hwn dros ddau fis yn ôl a gofynwyd i'r swyddog perthnasol edrych i mewn i hyn gyda'r gobaith y buasai un newydd yn cael ei osod yn ei le. Mae hyn wedi ei wneud a mae bin newydd wedi ei osod.

Elusen 'Llanrug Poor House'

Adroddwyd fod dyfodol yr elusen yn cael ei ystyried yn dilyn trafodaeth gyda'r Comisiwn Elusennol. Nodwyd y dylid defnyddio'r arian sydd yn enw'r elusen ar gyfer dibenion elusennol sydd yng nghyd fynd a'r amcanion o ddileu tldi. Gofynwyd i'r aelodau ystyried unrhyw ddibenion ble gellir targedu'r arian Opsiynau i bwrcasu diffibriliwr.

Ystyriwyd leoliadau posib i osod diffibriliwr yn yr ardal a sut y dylid ei ariannu.

Penderfynwyd cysylltu a BT i holi am yr opsiwn o osod diffibriliwr oddi fewn i giosg yng Nghwm y Glo ac yn Llanrug a chysylltu a Meddygfa Llanberis i geisio eu barn ar leoliadau priodol.

Cyflwyno darllenfa er cof i Glwb Eryri



Ann Elis yn derbyn y ddarllenfa grefftus o dderw Cymreig a llechen arysgrifo do capel Hebron gan Dafydd Ellis, sef y crefftwr

Fe gollodd Clwb Eryri aelod gwerthfawr a ffyddlon iawn pan fu farw Geraint Elis o Fethel. Ymysg llawer peth arall, roedd Geraint hefyd yn gadeirydd medrus i'r Eco. Cyflwynwyd rhodd anrhydeddus iawn i'r clwb gan Ann ei wraig. Penderfynwyd gofyn i Dafydd Ellis o Frynrefail, cyd-aelod iddo yn y clwb, i greu darllenfa ar gyfer y siaradwyr.



Annie Llwyn Bedw (Annie Williams, Llwyn Bedw 1884 – 1969)

Hen wreigan go arbennig yn byw yn ardal y Waunfawr yn ystod y ganrif ddiwetaf oedd Annie Williams, Llwyn Bedw. Er mai Annie Williams oedd ei henw, fel Annie William neu Mis Wilias Llwyn Bedw yr adwaenid hi gan bobl ardaloedd y Waunfawr a Betws Garmon bob amser. Annie

oedd yr ieuengaf a'r olaf o deulu lluosog Rhisiart Wiliam a'i wraig, a chwaer ymysg eraill i Meri, Sion ac Ywan Wiliam.

Mae Llwyn Bedw ar gyrion y Waunfawr, wedi ei leoli ar ddarn o dir mewn cilfach fechan yng nghysgod poncan ar ochr ddeheuol y ffordd wrth fynd i gyfeiriad Betws Garmon. Yno y bu Annie Wiliam fyw gydol ei hoes. Plasdy bychan oedd hwn yn y dyddiau cynnar, yn perthyn i'r pumed llwyth bonheddig, sef teuluoedd Bodfel, Ystumllyn, Craflwyn, Gwydir, Pengwern, Penarth a Chlenennau. Uwchben y lle tân yn y parlwr roedd arfbais y teulu – arfbais Collwyn ap Tangno: fleur-de-lis arian(argent) ar ddu (sable). Yn ystod y 1970'au roedd bwriad dymchwel y tyddyn a'i drosglwyddo i'w ail-adeiladu ar dir yr Angueddfa Werin yn Sain Ffagan, ond yma mae o hyd.

Cymeriad o'r hen drefn yn sicr oedd Annie Wiliam; dynes garedig, gyda gwên bob amser ar ei hwyneb, a'i dau lygad glas yn pefrio wrth eich cyfarch. Roedd yn wahanol, nid yn unig yn y ffordd yr edrychai, ond yn fwy na dim, am y ffordd y siaradai. Dywedai bopeth ddwywaith os nad deirgwaith: "hylo, hylo, hylo, sudachi, sudachi, mae'n braf, mae'n braf; tydi hi'n braf, braf."

Er bod Llwyn Bedw yn agosach i bentref y Waun, ac Annie'n adnabod brob bawb yno, a hwythau'n ei hadnabod hi, yn Salem, Betws Garmon roedd ei chymdeithas, ac yno y byddai'n mynychu'r capel ar y Sul a chyfarfodydd amrywiol noson waith.

Roedd ganddi rhyw egni neilltuol, a llwyddai drwy ddycnwch a diwydrwydd i dalu ei ffordd drwy hwsmona, a chadw rhyw ddwy fuwch ynghyd a ieir a gwyddau, a hel, chwedl hitha "rhyw geiniog fach ddigon taclus at fy nghadw." Byddai ar delerau da gyda pawb bob amser, a doedd ganddi ddim byd gwael i'w ddweud am neb; hyd yn oed rhyw adyn o ddyn oedd yn byw yn y gymdogaeth. Mi fynnai nad oedd hwnnw "ddim yn ddrwg i gyd chwaith".

Pan fyddai teulu newydd wedi gwneud cartref yn yr ardal byddai Annie yn siwr o alw heibio i'w cyfarch a'u croesawu – a'u canmol am ddod i "ardal mor dda a phobol mor nobl." Os byddai rhywun yn cwyno neu dan anhwylder byddai'n siwr o alw i'w gweld, a byddai ganddi bob amser rhywbeth yn ei llaw, boed yn ffrwyth neu fisgedi. Ond 'Ovaltine' oedd amlaf, gan fod ganddi ffydd mawr ynddo i gryfhau a gwella yn dilyn gwaeledd: "y peth gora gewch chi at fendio". Clywais ddweud iddi ar un achlysur roi paced deg o Wdbein yn anrheg i rhyw greadur gwachul oedd yn dioddef yn arw o ddiffyg anadl, gan feddwl y buasai "rhyw smôc bach yn gwneud byd o les iddo."

Mae'n debyg fod Annie wedi teithio mewn dwsinau o wahanol gerbydau dros y blynyddoedd gan fod ei dull rhyfeddol ac anarferol o deithio yn hollol unigryw. Mae sawl hanesyn digri wedi ei adrodd gan bobl a gafodd y profiad o'i chludo. Y cerbyd cyntaf ddeuai i'w chyfeiriad – dim ots cerbyd pwy na maint ei lwyth – a byddai Annie'n rhoi arwydd a'i llaw a rhyw dwlc i'w phen cyn camu i ganol y ffordd nes gorfodi'r gyrrwr i wneud un o ddau beth: sefyll ar ei frecs neu fynd ar ei thraws! A chyn y byddai'r gyrrwr wedi cael cyfle i ddod allan i'w rhegi, byddai hithau wedi agor y drws a gwthio'i hun i mewn cyn dweud yn siriol "I ffwr a chi, ffwr a chi" neu "Awe iw go, go on, awe, awe." Cofiaf un diwrnod gwlyb, a'r glaw yn arllwys i lawr, o weld car mawr llwythog yn arafu ym mhen yr allt wrth y Post yn y Waun. Ar ei do roedd llwyth o fagiâu a bocsus, a choets babi wedi ei rhwymo'n dynn dros y cwbl. Daeth y gyrrwr allan i agor y drws a'r peth cyntaf i neidio allan oedd labrador mawr melyn, gyda dau neu dri o blant yn ei ddilyn. Y peth nesaf i ymddangos oedd dwy goes hirfain mewn sannau crychiog, llwyd; a dyna lle'r oedd Annie yn stryffaglio allan o'r llwyth a pheri i'r plant a'r ci frysio'n ôl i mewn rhag iddynt "get wet, get wet". Y gyrrwr yn dweud wrthi hithau "I'm afraid you're going to get wet yourself, my dear." "No, no, no," meddai Annie, cyn taro'r bag siopa dros ei phen a'i ddal gerfydd ei glustiau dan ei gên, a rhoi tuth i lawr y lôn i gyfeiriad siop Bryn Pistyll. Mae'n debyg drwy ffawd-deithio fel hyn i Annie gyfarfod mwy o bobl o bob cenedl, llwyth ac iaith nac unrhyw un arall yn yr ardal.

Pan fu farw Ywan Wiliam ei brawd (fe fu farw'n sydyn yn y cae gwair), bu Annie mewn cyfyng gyngor beth i'w wneud, a daeth i'r penderfyniad mai'r peth gorau fyddai gwerthu Llwyn Bedw a mynd i gadw caffi – "i'r caffi 'nghadw inna". Wedi pendroni, aeth at gymydog da iddi, sef Richard Jones, y Cynant; un a fu'n gefn a chyfarwyddwr

caeredig iawn, i drafod ei phenbleth. Dywedodd Richard Jones nad oedd yn meddwl y byddai'n beth doeth iddi werthu ei chartref a mynd i gadw caffi, oherwydd "Welwch chi Miss Wilias bach; mi allwch roi ffon ar gefn rhyw hen lo am wrthod ei lith, ond fasa chi ddim yn medru rhoi ffon ar gefn cwsmar am wneud ffys efo'i fwyd!" Ac aros yn Llwyn Bedw fu hanes Annie, a chael help gwas ac aml i gymwynas gan rai o'i chymdogion caredig.

Dros y blynyddoedd bu llawer o lanciau ifanc yn gwasanaethu yn Llwyn Bedw. Un o'r rhain oedd Geraint Roberts, o Lanwnda, oedd yn nodedig am ei ddawn neilltuol fel chwibannwr a dynwaredwr adar. Roedd yr enwog Ronnie Ronalde ar un amser yn cael ei ystyried fel y chwibannwr a'r dynwaredwr adar gorau'n y byd, ond llawn cystal, os nad gwell, oedd Geraint Roberts am efelychu'r fwyalchen, yr eos a'r gylfinir.

Llanc arall fu'n gwasanaethu yno oedd Aneurun. Pan gafodd ei anafu mewn damwain beic ger Pont y Cynant roedd Annie wedi ei chyffroi a'i brawychu yn arw, ac yn ei gofid aeth i bentref y Waunfawr i chwilio am gymorth. O glywed y curo mwyaf byddarol ar y drws ffrynt, aeth fy mam i'w ateb a gwthiodd Annie heibio iddi i'r lobi yn gweiddi'n gyffrous "Ffoniwch Doctor Miles, ffoniwch Doctor Miles, ma' Aneurun 'di brifo, 'di brifo'n ofnadwy, ffoniwch o rwan, ffoniwch!" Bryd hynny, rhaid oedd cysylltu drwy'r gyfnewidfa deliffon, ac yn ystod yr oedi roedd Annie druan ar bigau'r drain. Wedi cael drwodd i'r syrjeri, estynnwyd y ffôn iddi. "Dyna chi Miss Wilias, mae Doctor Miles ar ben arall y lein. Deudwch wrtho fo be' sy' wedi digwydd."

"Naci, naci," meddai Annie yn ei chyffro, "Deudwch chi wrtho fo, deudwch chi, rhag i'r doctor weld yr olwg flêr ofnadwy sy' arna'i; golwg flêr ofnadwy."

Hanes arall am Annie yw'r un am fab y Post, Waunfawr yn danfon teligram i Lwyn Bedw ar ddiwrnod crasboeth o Awst, a hithau'n rhoi llond mwg mawr gwyn o sudd oren iddo – yn syth o'r botel. Ac er iddo ymbil a cheisio egluro fod angen rhoi dwr ar ben y sudd i leddfu'r chwerwder, ateb Annie oedd "Yfwch o 'ngwas i, yfwch o'i lawr reit handi; yfwch o i chi gael 'chwaneg." Ac yn ôl Clive y Post, "dyna'r orenj jiws mwya' uffernol i mi ei yfed 'rioed!'"

Mae stori arall yn adrodd sut yr oedd tri o lanciau'r Waun yn cerdded ar hyd y lôn heibio i Lwyn Bedw ar bnawn hyfryd o haf, ac yn cael andros o sioc o weld Annie yn brasgamu i lawr y cae tuag atynt yn gweiddi "Isho dyn, isho dyn, isho dyn". Gyda'r tri wedi eu syfrdanu, sylweddolwyd yn fuan fod rhywbeth mawr o'i le, ac wedi mynd i'r cae gwelsant fod y drol oedd yn cario'r gwair i'r gadlas wedi troi ar ei hochr wrth ddod drwy'r adwy, gan adael y llwyth yn bentwr ar lawr. Rhywfodd yng nghanol yr holl helbul a chyflafan, llwyddwyd gyda chryn ymdrech a nerth, a chymorth y gwas, i ail godi'r drol a'r llwyth, er mawr ryddhad i Annie.

Nid nepell o Lwyn Bedw mae tyddyn y Parc, sef cartref Eurwyn a Pearl Williams, a phleser a mwynhad i mi oedd cael eistedd ar eu haelwyd un noson braf o Fedi yn gwrando ar Eurwyn yn adrodd tipyn o hanes Annie Wiliam. Yn ôl Eurwyn, "mi fyddai'r hen Fiss Wilias yn galw heibio yn amal. Dwad dros y gamfa ac ar hyd y cae yn ystod y dydd, ac ar hyd y lôn wedi iddi d'wllu gyda'r nos, yn cario lamp baraffin ("Rhag i mi fynd i'r clawdd" chwadall hitha). Roeddan ni'n nabod y gnoc ar y drws a swm y gliciad yn agor; a dyna lle byddai yn martsio fwy clên i'r tŷ cyn gosod y lantar ar y bwrdd a'i diffodd. Mi fydda acw weithiau am oria, yn ista o flaen y tân yn siarad am bob dim dan haul. Chymera hi ddim panad dros 'i chrogi; gwrthod bob amser. Ond os bydda rhai ohonom ni yn galw yn Llwyn Bedw, y pechod mwya i'r hen Fiss Wilias fydda gwrthod panad a rhyw damaid o gacan. Mi fyddai'r hen greaduras yn brysur bob amser, ac yn amlach na pheidio, mi fyddai wedi gorffen godro a bwydo'r ieir ymhell cyn i'r ddau was feddwl am godi. Dwi'n cofio fel byddai ar adeg c'neua gwair yn dwad at glawdd y lôn i ddisgwyl hogia Tan Ffordd ddwad adra o'r chwarael, ac yn chwthu pib i gael eu sylw, er mwyn iddyn nhw ddod draw i helpu yn y gwair. Mi oedd y beth ffeindia fyw, yn enwedig adag y Nadolig, pryd byddai'n anfon y ddau was i'r caea' i dorri sbriga o gelyn coch, cyn iddi hitha fynd a nhw wedyn mewn sach dros ei hysgwydd, a'i rhannu nhw rownd y tai yn y Waun a'r Betws fel arwydd o ewyllys da."

Gan Eurwyn y cefais lun o Annie Wilias yn eistedd ar dalp o garreg o flaen y tyddyn, sef Carreg y Marchog; un y byddai'r marchogion cynnar yn ei defnyddio i sefyll arni i esgyn ar eu ceffylau.

Pan ofynnwyd i un o hen gymeriadau mwyaf lliwgar y Waunfawr, sef Griffith Jones, neu Guto'r Allt i bawb yn yr ardal, pwy, yn ei farn ef oedd yr eneth harddaf oedd yn ei gofio pan yn lanc ifanc, atebodd "Heb amheuaeth, Annie Llwyn Bedw, hogan ddel ofnadwy; y dlysa ohonyn nhw i gyd." Ie, "hogan ddel" chwedl Guto, ond hefyd, yn fwy na dim, yn gymeriad hynod ac unigryw o'r hen drefn yn sicr oedd Annie Wiliam neu Miss Wilias, Llwyn Bedw. "Ia wir, ia wir, ia wir."

Gwilym Morris Jones.

Llwyddiant lleol ar yr Wyddfa



Am y tro cyntaf ers bron i ddeng mlynedd ar hugain daeth Cymraes yn fuddugol yn Ras yr Wyddfa; ac am y tro cyntaf ers ugain mlynedd cafwyd enillydd o fro'r "Eco". Angela Carson o Borthmadog oedd y ferch ddiwethaf o Gymru i goncro'r mynydd yn dilyn llwyddiannau Joan Glass o Lanberis ym mlynnyddoedd cynnar y ras. Ond Bronwen Jenkinson o'r Waunfawr yn cynrychioli Cymru ddangosodd fod traddodiad cryf rhedeg mynydd yn ardal yr "Eco" yn parhau i gynhyrchu enillwyr rhyngwladol. Hi yw'r ferch ieuengaf erioed i ennill y ras, ac roedd yn llawn haeddu'r clod wedi iddi arwain o'r cychwyn cyntaf.

Cyrhaeddodd y copa mewn cwta 51 munud, bron i ddau funud a hanner o flaen yr ail ferch; gagendor amser na allai gafr fynydd o redwraig ei gwtogi wrth iddi garlamu i lawr y llethrau llithrig a mwynhau'r gymeradwyaeth fonllefus yr holl ffordd o Westy'r Fictoria i Gae'r Ddôl. Ni chafwyd y fath gefnogaeth ers i Colin Jones o Bontrug ennill yn 1998. Ac yn ei dilyn dros y llinell derfyn roedd Miranda Grant yn cynrychioli'r Alban, ond yn byw yn Llanberis ers rhai blynnyddoedd oherwydd ei gwaith. Llwyddiant dwbwl lleol i'r merched!

Bythefnos yn gynt roedd Rob Samuel o Lanberis wedi ennill ras Gwynnos yr Wyddfa, sefras i'r copa yn unig. Dangosodd ei allu i ddringo drwy gyrraedd y copa yn ail mewn 43 munud, gyda'r Eidalwr Alberto Vender yn dynn wrth ei sodlau. A'r Eidalwr ddangosodd i'r gweddill sut i ymdopi â gelltyd y Clogwyn Coch a Gallt Moses drwy frasgamu i lawr mewn 23 munud yn unig. Daeth Rob yn drydydd, lai na munud o'i ôl.

Llongyfarchiadau i'r tri ar eu llwyddiant – ac i bawb arall a gwblhaodd ras anodd o gysidro fod y niwl a'r glaw wedi gwneud wyneb y llwybr yn llithrig iawn yn dilyn y cyfnod hir o sychder a gwres.

Yn gynharach yn y mis roedd Bronwen yn cynrychioli tim Prydain ym Mhencampwriaethau Rhedeg Mynydd Ewrop ym Macedonia. Daeth yn ddeuddegfed yn y ras honno, a sicrhau fod Tim Prydain yn cipio'r fedal efydd y tu ôl i dim Ffrainc a Gwlad Czech.

Pencampwr Cic-bocsio Prydain

Marvin Pritchard o Lanrug yw Pencampwr Prydain yn y gamp o gic-bocsio. Hawliodd y bencampwriaeth ym Mharc Eirias, Bae Colwyn yn ddiweddar yn yr adran pwysau 80 kg. Daeth yn bencampwr Cymru am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2015, ac yna'n bencampwr Prydain ym mis Tachwedd 2016. Ni fu'n cystadlu yn 2017, ond eleni dychwelodd gan ail-hawlio y belt a enillodd ddwy flynedd yn ol.

Mae erbyn hyn wedi sefydlu canolfan hyfforddi ym Mhorthmadog; y fwyaf o'i bath yng ngogledd Cymru. Yno ar hyn o bryd mae'n hyfforddi 14 o 'brentisiaid' yn y gamp; deg o ddynion a phedair merch, ac yn gobeithio eu gweld yn cic-bocsio mewn cystadleuaeth ym mis Hydref.



Merched Clwb Hoci yn barod am dymor newydd.



Gyda thymor Cynghrair Hoci Merched Gogledd Cymru ar fin dechrau, mae merched ardal Dyffryn Peris a thu hwnt yn paratoi drwy edrych yn ôl ar ddathliadau'r haf.

Roedd y tim yn falch iawn bod un o'u chwaraewyr selog, eu golgeidwad Gwen Morris, wedi derbyn gwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2018 gan y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Gwirfoddolwr Dan 18 y Flwyddyn yng Ngwobrau Chwaraeon Ysgolion Gwynedd a Môn am ei hymroddiad i wirfoddoli fel hyfforddwr i blant ifanc y clwb. Llongyfarchiadau mawr iddi.

Cafodd rhai o'r clwb gyfle i ymlacio dros yr haf wrth wyluo Gem Derfynol Cwpan y Byd Hoci Merched rhwng Iwerddon a'r Iseldiroedd, i gyd o'r Champion's Suite!

Mae'r clwb yn hynod falch o'u carfan ifanc eleni, a'r llwyth o ferched a bechgyn cynradd sy'n cymryd diddordeb mewn hoci. Llongyfarchiadau enfawr i ddwy ohonynt yn arbennig, Elain Lloyd Owen (Llanberis)

CROESFFORDD

Dyna'r sefyllfa ynglyn a dyfodol un o chwaraewyr rygbi mwyaf dawnus a gynhyrchwyd gan yr ardal yma sef Rhun Williams. Y rheswm yw anaf ddrwg i'w ysgwydd a dderbyniodd tra'n taclo un o chwaraewyr Zebre yn yr Eidal tra'n cynhyrchioli Gleision Caerdydd y tymor diwethaf. Wedi gyrfa lwyddianus gyda thim dan 20 Cymru – gan gynnwys Camp Lawn a chystadleuaeth Cwpan y Byd Oedranol – roedd wedi derbyn cytundeb proffesiynol gyda'r Gleision. Cafodd gemau rheolaidd yn nhim cyntaf y Gleision unai fel cefnwr neu asgellwr. Roedd ei allu o dan y bêl-uchel a'i gyflymdra cynhenid yn agweddau pwysig o'i gêm. Pe na bai wedi ei anafu roedd dan ystyriaeth fel aelod o garfan llawn Cymru ar gyfer taith yr Haf i Ynysoedd y De dan arweiniad Robin McBryde. Pwy a wŷr, efallai buasai'r 'cap cyntaf' llawn wedi ei ennill. Wedi llawdriniaeth ac oriau o therapi araf iawn yw'r gwellhad. Fel y disgwyliwyd ar lefel proffesiynol mae Rhun yn derbyn y gofal a chefnogaeth orau gan y clwb. Gobeithio bydd y triniaethau yn dwyn ffrwyth, ac na fydd ei yrfa yn dirwyn i ben ar yr union adeg ble roedd ei botensial amlwg yn dechrau dwyn ffrwyth. Dymunwn y gorau iddo.

a Mared Llwyd (Llanrug), a gafodd wahoddiad i chwarae i dim dan 13 Gogledd Cymru mewn twrnament tri diwrnod ym Mhrifysgol Manceinion. Mae gwaith caled o ddatblygu sgiliau ieuenctid y clwb wedi talu ar ei ganfed wrth weld y ddwy yn cael profiad anhygoel yn cynrychioli Gogledd Cymru.

Ar ddiwedd tymor diwethaf gwobrwywyd Gwenno Gibbard fel Chwaraewraig y Flwyddyn, Manon Lloyd Williams fel Chwaraewraig y Chwaraewyr a Natalie Meek, un o'r criw ifanc sydd wedi chwarae ei thymor cyntaf gyda'r criw hŷn, fel Chwaraewraig Ifanc y Flwyddyn.

Ar ôl tymor llwyddiannus y llynedd gyda'r tim hŷn yn bencampwyr ail adran Cynghrair Hoci Merched Gogledd Cymru, beth ddaw ohonynt y tymor hwn? Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r clwb ar unrhyw amser, boed yn newydd i hoci, neu'n dychwelyd i'r gêm ar ôl cyfnod o beidio chwarae. Bydd ymarfer cyntaf tymor nos Fercher, Medi 5ed ar gae bob tywydd Ysgol Brynrefail, Llanrug. Bydd ymarferion Cynradd am 6.30 – 7.30, Blwyddyn 7-9 o 6.30 – 8.00 a'r criw hŷn o 7.30 – 9.00.

DECHRAU TYMOR ADDAWOL

Bydd Llanberis a Llanrug yn fodlon a'u dechreuad i'r tymor, gyda'r ddau dim ymysg y ceffylau blaen. Y ddau dim hefyd wedi wynebu gemau caled ond wedi cipio'r tri phwynt drwy sgorio goliau. Y gamp fydd cadw'r cysondeb yma. Enghraifft berffaith o hyn oedd - gyda'r Eco yn mynd i'w wely – y ddelfryd yn cael ei chwalu wrth i Lanberis golli 6-1 draw ym Modedern. Un peth braf oedd bod Ifan Mansoor yn dal i ganfod cefn y rhwyd. Erbyn y rhifyn nesaf bydd Llanrug wedi teithio i Faes Dulyn i gyfarfod tim cryf Dyffryn Nantlle, sydd ar frig y tabl. Unwaith eto eleni mae Kevin Lloyd wedi gadael ar ôl ychydig gemau i Lanrug. I Gaernarfon y llynedd, Llangefni y tro hwn. Beth yw'r dynfa at glwb ar ddechrau'r tymor ac yna gadael wedi llond llaw o gemau? Pwy a wŷr efallai daw yn ôl cyn diwedd y tymor. Nid yw Waunfawr wedi tanio eto ac mewn cynghrair gystadleuol iawn bellach efallai mai rhediad yn un o'r cwpanau fydd yn cynnal brwdfrydedd eto eleni.

Cefnogaeth Ariannol ar gael drwy Cronfa Cist Gymunedol Chwaraeon Gwynedd

Mae Cronfa Cist Gymunedol Gwynedd wedi dyrannu cyfanswm o £12,203 i naw clwb chwaraeon yn y sir yn ddiweddar.

Mae grantiau Cist Gymunedol Gwynedd yn rhoi cymorth i glybiau a sefydliadau amrywiol sydd yn ymwneud a chwaraeon a gweithgaredd corfforol ledled y sir. Mae hyd at £1,500 o grant ar gael a £76,500 i ddyrannu i brosiectau yng Ngwynedd eleni.

Bydd yr arian grant mae'r Gist Gymunedol Gwynedd yn dyrannu, yn helpu i hybu clybiau a sefydliadau chwaraeon yn y sir ac i ddarparu gwell cyfleoedd chwaraeon i drigolion Gwynedd.

Does dim rhaid bod yn glwb chwaraeon i ymgeisio. Gall Neuaddau Cymunedol neu Bwyllgorau Lleol cyflwyno cais os ydynt am ddatblygu gweithgareddau corfforol yn eu cymuned.

Dywedodd y Cynghorydd Craig Ab Iago aelod cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant ar Gyngor Gwynedd: "Pwrpas Cist Gymunedol Gwynedd ydy i gefnogi a hyrwyddo amrywiaeth o chwaraeon ym mhob rhan o'r sir. Byddwn yn annog unrhyw glwb neu sefydliad chwaraeon yng Ngwynedd sy'n credu eu bod yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol

gan Gist Gymunedol Gwynedd i gyflwyno cais cyn gynted â phosibl. Gall grant o'r fath hon sicrhau datblygiad yn y cyfnod ariannol heriol hwn sydd ohoni."

Yng nghyfarfodydd diweddaraf Cist Gymunedol Gwynedd, rhannwyd grantiau i nifer o glybiau gan gynnwys:

Clwb Chwaraeon Cymunedol Dinas Bangor, Clwb Marchogaeth Sir Gaernarfon, Clwb Bowlio Mat Byr Trefor, Clwb Pêl-droed Mountain Rangers, Clwb Ardal Caernarfon Undeb Rygbi a Phêl droed, Clwb Pêl-droed Talysarn Celts.

Y dyddiad cau nesaf ar gyfer cyflwyno ceisiadau fydd 6 Medi, gyda'r dyddiad cau nesaf wedi hynny ar 5 Tachwedd. Dylai ceisiadau gael eu cyflwyno cyn hanner dydd. Gellir llenwi cais ar lein trwy fynd a'r safle we Chwaraeon Cymru www.chwaraeon.cymru (Cyllid-Grantiau-Cist Gymunedol) a chlicio ar 'Ymgeisio ar-lein'.

Am unrhyw wybodaeth arall neu gyngor, cysylltwch â thim Cist Gwynedd y Cyngor drwy e-bostio LAGO@gwynedd.llyw.cymru neu ffoniwch 01286 679153.

Llwyddiant pel-droedwyr lleol



Gethin Bryn Thomas yn derbyn ei gap cyntaf dros Gymru gan Sam Ricketts

Bachgen o Lanrug ydi Gethin a'i uchelgais yw bod yn chwaraewr pêl-droed proffesiynol. Pêl-droed yw ei ddiddordeb mawr ers yn fachgen ifanc iawn lle bu yn Academi Bangor gan weithio ei ffordd drwy'r carfannau oed ac yna chwarae i dim cyntaf y ddinas. Cafodd ei gêm gyntaf yn erbyn CPD Penydarren y tymor diwethaf.


Chwaraewr canol cae ydi Geth yn gwisgo'r crys 14 ac yn cael ei noddi gan yr adeiladwr Steven Jones.

Cafodd ei gap cyntaf i Gymru ar ôl chwarae i dim Colegau Cymru dan 19oed. Colli o 4 gôl i 1 yn erbyn tîm ISFA Lloegr oedd yr hanes ond dwi'n siŵr fod gwell i ddod.



Cynan Sion Holdsworth o Lanrug yn ei git Man City

Yn ystod gwyliau'r Haf, cafodd Cynan ei ddewis i gynrychioli Manchester City Elite o dan 8 oed mewn gemau yn erbyn Arsenal a Luton. Roedd ei dim yn llwyddiannus ym mhob un o'r gemau. Yn ystod y penwythnos yn Llundain cafodd hefyd y cyfle i wylïo y gêm Community Shield, Manchester City yn erbyn Chelsea. Mae Cynan yn ymarfer yn yr Etihad dair gwaith yr wythnos ers blwyddyn bellach ac yn mwynhau y cyfleoedd mae'n ei gael fel aelod o academi Manchester City. Da iawn chdi Cynan.



GWAHANU

Fel sydd yn hysbus o'r wasg leol bellach mae rhwyg wedi ymddangos ym myd pêl-droed Bethel. Y mae'r timau merched bellach wedi eu gwahardd o chwarae ar gae Coed Bolyn. Mae hyn wedi tymor llwyddianus iawn y llynedd. Os felly, y timau ieuencid bechgyn yn unig fydd ym Methel bellach. Nid wyf am fynegi barn gan nad wyf yn aelod o unrhyw bwyllgor yn ymwneud â'r clwb, na hefyd yn ymwybodol o'r holl ffeithiau ynghylch y mater. Am weddill yr erthygl yma, ymateb a chwestiynau un yn edrych o'r tu allan yw'r rhain.

Tybed a yw hyn yn fater sydd wedi bod yn ffrwtian ers cryn amser? Ai carfannau arwahan oedd y bechgyn a'r merched tu fewn i strwythr un clwb? Mae un peth yn sicr mae symiau sylweddol o arian nawdd wedi ei dderbyn gan Glwb Pêl-droed Bethel yn ddiweddar, arwahan i'r grantiau a alluogodd y clwb i wario £32, 000 ar wella systemau draenio y cae. Y mae ambell un o'r symiau nawdd yn hael iawn ac yn uwch nag mae y mwyafrif o glybiau sefydlog dynion ein hardal yn ei dderbyn. I mi, mae hyn yn awgrymu gobeithio fod cynllun penodol ar droed parthed datblygiad pêl-droed am sawl tymor i ddod ym Methel. Ydy hyn yn awgrym o ail ddechrau tim hŷn yn y pentref? A oes polisi i wireddu dymuniad sawl un o weld hogia Bethel yn llenwi timau Bethel – hynny yw, rhediad benodol o'r timau ieuencid i'r ffrwd hŷn? Fel finnau, mae sawl pentrefwr yn cyfrannu pob mis at goffrau'r clwb,neu gefnogi gweithgaredd, gan obeithio yn ein ffyrdd bach ein hunain ein bod yn cefnogi'r ieuencid efallai mwy na'r bêl-droed. Rwyn siwr y buasai'r ddwy ochr yn yr anghydfod hwn yn hoffi manteisio ar gyfle i esbonio'n glir i'r ardalywyr beth yn union yw'r wir sefyllfa. Yr wyf felly yn rhoi gwahoddiad i gynhyrchiolydd/wyr Clwb Pêl-droed Bethel a Chlwb Pêl-droed Merched Bethel i gyfrannu erthygl yn mynegi eu safbwyntiau ar gyfer rhifyn Hydref o'r Eco.



Chwaraeon Ysgol Brynrefail

Llwyddiant Canwïo

Cynhaliwyd Pencampwriaeth Canwïo Cymru ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 14eg ac enillodd Anya Wharton y J13 C1W (cystadleuaeth sengl merched) gan ei gwneud yn Bencampwr Cymru yn y maes!

Derbyniodd Anya ei gwobr gan Jonathan Davies (Canw Cymru).

Wythnos Wimbledon yn yr ysgol

Yn ystod yr wythnos Gorffennaf 2 – 6 trefnodd yr adran Addysg Gorfforol bod Mr Gareth Jones a Cai Llwyd yn cynnal wythnos Wimbledon yma! Sesiynau 'troi fyny a chwarae' oedd rhain oedd yn digwydd ar ddydd Llun, Mawrth a Gwener ac yn cael eu cynnal ar y cyrtiau tenis tu allan. Nid oedd angen i'r disgyblion newid, dim ond troi fyny a mwynhau. Mae'r adran Addysg Gorfforol yn ceisio hybu mwy o blant i weithio'n gorfforol. Roedd mefus ffres ar gael i bawb ddaeth i gymryd rhan (cyfraniad gan Tesco a Morrisons).

Llongyfarchiadau mawr i'r timau Tennis , bechgyn a genethod yn 2ail drwy Ogledd Cymru! Gwych! Diolch anferthol i Mr Gareth Jones am ei holl waith.



Cefnogwch ein hysbysebwy

Chwaraeon

Bowlio Bethel

Mae y Clwb Bowlio wedi archebu mat newydd a fydd yn gwella y cyfleusterau chwarae bowls i'r aelodau. Gwnaed hyn yn bosib drwy gyfraniad ariannol hael gan gwmni First Hydro o Lanberis. Mae'r aelodau yn ddiolchgar iawn i'r Cwmni a hefyd i'r Cynghorydd Sion Jones am ei gymorth.



Gwobrau Chwaraeon Ysgol



Ganol fis Gorffennaf yn Y Galeri, Caernarfon cynhaliwyd Noson Wobrwyo arbennig dan arolygaeth Tim Chwaraeon am Oes Gwynedd a Tim Môn Actif. Y gyflwynwraig wâdd ar y noson oedd Elin Fflur. Ar y noson cyflwynwyd gwobrau i ddisgyblion ysgol cynradd ac uwchradd o Wynedd a Môn oedd wedi cyrraedd y brig mewn chwaraeon o bob math yn ystod y flwyddyn ysgol a aeth heibio. Roedd deg categori gwahanol: naw ar gyfer y disgyblion ac un i hyfforddwyr dros 18 oed. Mewn pedwar o'r categorïau roedd enwebiadau i aelodau o Ysgol Brynrefail. Yng nghategori Bachgen Uwchradd y Flwyddyn enwebwyd Rhodri Slaven am ei lwyddiant ym maes caiacio.



Yng nghategori Geneth Uwchradd y Flwyddyn enwebwyd Abbi Parkinson am ei llwyddiant ym maes athletau. Yng nghategori Hyfforddwr/Gwirfoddolwr dros 18 oed enwebwyd Ms Llinos Dobson, athrawes yn Ysgol Brynrefail. Penllanw'r noson yn ddiau oedd Tim Pel-droed Ysgol Brynrefail yn ennill categori Tim y Flwyddyn yn dilyn eu llwyddiant yng Nghwpan Cymru. Roedd nifer o Lysgenhadon Chwaraeon yr ysgol yn cynorthwyo ar y noson hefyd.